



CPS

Adroddiad ar Drosedd Trais yn Erbyn Menywod

2008 – 2009

CANGEN GWYBODAETH REOLI

Mynegai

Rhagair gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus	2
Crynodeb Gweithredol	3
Cyflwyniad	6
Prif Ganfyddiadau Trais yn Erbyn Menywod	10
Trais Domestig	19
Prif Ganfyddiadau Trais Domestig	22
Treisio	31
Prif Ganfyddiadau Treisio	34
Troseddau Rhywiol	42
Prif Ganfyddiadau Troseddau Rhywiol	43
Priodas dan Orfod, Llurgunio Organau Rhywiol Menywod a Trais yn Seiliedig ar Anrhydedd	49
Plant a Cham-drin Plant	51
Prif Ganfyddiadau Cam-drin Plant	53
Masnachu mewn Pobl	55
Puteindra	63
Pornograffi	65
Troseddau'n erbyn Pobl Hŷn	68
Atodiad 1: Erlyniadau'n ôl Ardal	70
Geirfa	74

Rhagair Gan Y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus

Rwyf yn croesawu ail adroddiad trosedd Trais yn erbyn Menywod (TEM), sy'n amlinellu'r erlyniadau o droseddau ar draws rhychwant o droseddau TEM yn 2008-09.

Mae'r CPS yn cydnabod bod trais yn erbyn menywod yn achos ac yn ganlyniad i anghydraddoldeb rhyw. Yn Ebrill 2008 sefydlasom y strategaeth TEM, gyda dangosydd TEM i fesur perfformiad ar draws troseddau TEM. Mae dynodiad y Strategaeth TEM fel 'cenhadaeth hanfodol' yn y sefydliad yn gydnabyddiaeth o'r pwysigrwydd a roddwn ar y gwaith hwn.

Mae'r dangosydd TEM yn mesur perfformiad ar draws trais domestig, treisio a throseddau rhywiol. Hefyd, rydym yn cofnodi erlyniad nifer o feysydd TEM eraill, megis cam-drin plant, puteindra a phornograffi. Ac eleni, am y tro cyntaf, rydym wedi dechrau gweithio gyda Chanolfan Masnachu mewn Pobl y DU i gofnodi data ar erlyniad achosion masnachu mewn pobl. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion ynglŷn ag erlyniadau troseddau TEM mewn cymhariaeth gyda blynyddoedd blaenorol, ble fo'n bosib.

Yn 2009, bu ymgynghoriad ar ddatblygiad strategaeth traws-lywodraeth ar drais yn erbyn menywod a genethod (TEMG) sydd wedi'i chynllunio ar gyfer rhan olaf 2009. Bydd y strategaeth hon yn rhoi sylw manwl i ffyrdd o wella gwaith ar draws yr holl adrannau llywodraeth wrth ddelio gyda TEMG. Mae strategaeth TEM y CPS yn ffurfio rhan o'r gwaith hwn ac rydym yn ymrwymo i gynhyrchu'r adroddiadau trosedd TEM blynyddol hyn er mwyn sicrhau monitro cyhoeddus o'n gwaith.

Yn gyffredinol, mae'r adroddiad yn newyddion da, yn dangos nid yn unig cynnydd mewn canlyniadau llwyddiannus ar draws TEM ond hefyd cynnydd yn nifer yr achosion sy'n cael eu herlyn. Mae'r dadansoddiad data hwn wedi ein helpu i ddeall y tebygrwydd a'r gwahaniaethau wrth erlyn yr achosion hyn. Rydym yn ymwybodol o'r materion dioddefwyr ar draws yr holl droseddau TEM, ond rydym hefyd yn ymwybodol o'r gwahaniaethau – er enghraifft, y cynnydd mewn cyhuddiadau a phledio'n euog o safbwynt trais domestig o'i gymharu â llai o achosion a gyhuddir, a mwy o ryddfarnau yn achos treisio. Mae hyn yn ein helpu i ganolbwyntio ar weithredoedd penodol, ar gyfer meysydd TEM penodol, er mwyn gwella erlyniadau.

Rydym yn cydnabod bod llawer iawn o waith eto i'w wneud, ond rydym yn ymrwymedig i wella erlyniadau teg a chyfiawn yn yr holl achosion TEM, gan roi sylw i ddiogelwch a chymorth dioddefwyr. Rydym yn ddiolchgar i'r holl erlynyddion ac adfocadau Ardal sy'n delio â'r achosion hyn a'r asiantaethau cymorth sy'n gweithio gyda ni i ddarparu cymorth i ddioddefwyr.

Crynodeb Gweithredol

Dyma ail adroddiad perfformiad blynyddol Trais yn erbyn Menywod (TEM) Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), ac mae'n trafod y meysydd canlynol o Drais yn erbyn Menywod ar gyfer 2008 - 09: trais domestig; priodas dan orfod; trais yn seiliedig ar anrhydedd; llurgunio organau rhywiol menywod; treisio a throseddau rhywiol; masnachu mewn pobl; puteindra; cam-drin plant; a phornograffi.

Mae'r troseddau hyn wedi'u grwpio o dan ymbarél 'Trais yn Erbyn Menywod' oherwydd eu proffil – achosion sydd wedi'u cyflawni'n bennaf, er nad bob amser, gan ddynion yn erbyn menywod, o fewn cyd-destun pŵer a rheolaeth.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi data cyfun ar drais domestig, treisio a throseddau rhywiol, gydag adrannau ar wahân ar bob un o'r tri maes yn dilyn.

Hefyd, rhoddir data pellach ar gam-drin plant, puteindra, masnachu mewn pobl a phornograffi. Yn achos yr holl feysydd TEM, ceir gwybodaeth fanwl ar waith presennol a gwaith sydd wedi'i gynllunio, a chyflwynir nifer o astudiaethau achos fel enghreifftiau.

TEM - prif ganfyddiadau cyffredinol

Mae adran TEM yr adroddiad yn cyflwyno data a goladwyd ar drais domestig, treisio a throseddau rhywiol. Mae'r ffigyrau pennawd yn dangos:

- Yn y tair blynedd yn diweddu Mawrth 2009, erlynwyd dros 222,900 o ddiffynyddion am droseddau trais yn erbyn menywod;
- Roedd 94% o ddiffynyddion yn ddynion yn 2008-09 (yr un fath â 2007 - 08);
- Roedd 85% o ddioddefwyr yn fenywod yn 2008-09¹ (1% yn llai nag yn 2007 - 08);
- Roedd 85% o droseddau TEM yn drais domestig; 5% yn dreisio a 10% yn droseddau rhywiol;
- Cynyddodd nifer yr achosion TEM a gyhuddwyd o 53% yn 2006 - 07 i 63% yn 2008 - 09;
- Gostyngodd yr erlyniadau aflwyddiannus o 35% yn 2006-07 i 28% yn 2008 -09, tu draw i'r targed o 29%;
- Cynyddodd yr erlyniadau llwyddiannus o 65% yn 2006 - 07 i 72% yn 2008 - 09;
- Gwelwyd pledio'n euog yn cynyddu o 56% yn 2006-07 i 63% yn 2008 - 09;
- Roedd canlyniadau aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr yn cyfrif am 15% o'r holl ganlyniadau TEM yn 2006 - 07, gan ostwng i 12% yn 2008 - 09.

Trais domestig - prif ganfyddiadau

Mae data trais domestig yn cael ei gadw o 2005 - 06, yn galluogi dadansoddiad dros gyfnod pedair blynedd.

- Yn y pedair blynedd yn diweddu Mawrth 2009, erlynwyd dros 238,000 o ddiffynyddion am drais domestig;
- Roedd 94% o ddiffynyddion yn ddynion yn 2008 - 09 (yr un fath â 2007 - 08);
- Roedd 85% o ddioddefwyr yn fenywod yn 2008 - 09² (yr un fath â 2007 - 08);

¹ Nodwch na chofnodwyd rhywedd y dioddefwr mewn 36% o achosion TEM.

² Nodwch na chofnodwyd rhywedd y dioddefwr mewn 35% o achosion trais domestig.

- Cynyddodd nifer yr achosion TD a gyhuddwyd³ o 56% yn 2006 - 07 i 65% yn 2008 - 09;
- Gostyngodd yr erlyniadau aflwyddiannus o 40% yn 2005 - 06 i 28% yn 2008 - 09, yn cwrdd â'r targed 28%;
- Cynyddodd yr erlyniadau llwyddiannus o 60% yn 2005 - 06 i 72% yn 2008 - 09;
- Gwelwyd pledio'n euog yn cynyddu o 58% yn 2006 - 07 i 65% yn 2008 - 09;
- Roedd canlyniadau aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr yn cyfrif am 17% o'r holl ganlyniadau trais domestig yn 2006 - 07, gan ostwng i lai na 14% yn 2008 - 09.

Treisio - prif ganfyddiadau

- Yn y tair blynedd yn diwedd Mawrth 2009, erlynwyd dros 10,200 o ddiffynyddion am dreisio;
- Roedd 99% o ddiffynyddion yn ddynion yn 2006 - 07, 2007 - 08 ac yn 2008 - 09;
- Roedd 88% o ddioddefwyr yn fenywod yn 2008 - 09⁴, 1% yn fwy nag yn 2007 - 08;
- Cynyddodd y gyfran o achosion treisio y penderfynodd y CPS eu cyhuddo o 30% yn 2006 - 07 i 39% yn 2008 - 09;
- Parhaodd yr erlyniadau aflwyddiannus heb newid ar 42% yn 2008 - 09 a 2007 - 08, gan fethu'r targed o 41% o ychydig;
- Parhaodd yr erlyniadau llwyddiannus ar 58% yn 2007 - 08 a 2008 - 09;
- Parhaodd pledio'n euog ar 35% yn 2007 - 08 a 2008 - 09;

Trosedd rywiol - prif ganfyddiadau⁵

- Yn y tair blynedd yn diwedd Mawrth 2009, erlynwyd dros 24,300 o ddiffynyddion am droseddau rhywiol (heblaw am dreisio);
- Roedd 95% o ddiffynyddion yn ddynion yn 2008 - 09 (heb newid llawer o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol);
- Gostyngodd yr erlyniadau aflwyddiannus o 32% yn 2005 - 06 i 25% yn 2008 - 09, tu draw i'r targed o 28%;
- Cynyddodd yr erlyniadau llwyddiannus o 68% yn 2005 - 06 i 75% yn 2008 - 09
- Cynyddodd pledio'n euog o 53% yn 2006 - 07 i 62% yn 2008 - 09;

Cam-drin plant

Mae'r adroddiad hefyd yn darparu data ar erlyniad lladdiad plant; troseddau corfforol a throseddau rhywiol.

- Yn y tair blynedd yn diwedd Mawrth 2009, erlynwyd 103 o ddiffynyddion am laddiad⁶; 6,730 o ddiffynyddion am droseddau corfforol ac 11,810 o ddiffynyddion am droseddau rhywiol yn erbyn plant.
- Yn 2008-09, roedd 73% o ddiffynyddion mewn achosion lladdiad, 74% o ddiffynyddion troseddau corfforol, a 98% o ddiffynyddion troseddau rhywiol yn ddynion;
- Yn 2008-09 roedd cyfraddau euogfarn o 75% am ddynladdiad⁷; 73% am droseddau yn erbyn yr unigolion, a 75% am droseddau rhywiol.

³ Data ar gyhuddo ar gael o 2006-07 yn unig.

⁴ Nodwch na chofnodwyd rhywedd y dioddefwr mewn 52% o achosion trais rhywiol.

⁵ Mae data CPS ar droseddau rhywiol yn fwy cyfyngedig nag yw am drais domestig a thrais rywiol. Dynodir troseddau rhywiol ar ddiwedd erlyniad yn unig, tra bod data ar drais domestig a thrais rywiol yn cael ei gadw hefyd ar gyfer achosion cyn-cyhuddo.

⁶ Mae lladdiad, o fewn System Rheoli Achosion y CPS, yn cynnwys troseddau o lofruddiaeth neu ddynladdiad, cynllwynio neu geisio lladd a bygythiadau i ladd.

⁷ Nodwch, os gwelwch yn dda, y nifer fechan o achosion.

Masnachu mewn Pobl

Mae data ar erlyniad troseddau masnachu mewn pobl ar gyfer 2008 – 09, ar gael mewn pennod ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, wedi'i ddarparu gan Ganolfan Masnachu mewn Pobl y DU. Yn 2008 - 09, erlynwyd 80 o ddiffynyddion am fasnachu mewn pobl i ddiben ecsbloetiaeth rywiol o dan Adrannau 57, 58 a 59 y Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003. Roedd 227 o ddioddefwyr, 140 ohonynt yn fenywod a 87 yn ddynion, yn yr holl droseddau masnachu mewn pobl. Roedd y mwyafrif o ddioddefwyr rhwng 21 a 25 oed.

Puteindra

Mae peth data yn cael ei ddarparu ar y nifer o droseddau a erlynir mewn perthynas â rheoli puteindra, rheoli puteindy, plagio pen stryd neu hysbysebu puteindra drwy roi hysbysebion mewn blychau ffôn. Yn 2008 - 09, erlynwyd 134 o droseddau rheoli puteindra, 91 o reoli puteindy, 341 o droseddau plagio pen stryd a 349 o droseddau hysbysebu puteindra.

Pornograffi

Mae peth data hefyd yn cael ei ddarparu ar y nifer o droseddau a erlynir mewn perthynas â deunyddiau anweddus neu dramgwyddus iawn, cyhoeddiadau anllad ac ecsbloetiaeth rywiol o blant drwy wneud, dosbarthu, dangos a hysbysebu lluniau anweddus. Yn 2008 - 09, erlynwyd 4,241 o droseddau o feddiant o lun anweddus o blentyn ac 14,656 o ecsbloetiaeth rywiol o blant drwy luniau.

Cyflwyniad

Dyma ail adroddiad perfformiad blynyddol Trais yn erbyn Menywod Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS). Mae'r adroddiad yn trafod rhychwant o feysydd Trais yn erbyn Menywod (TEM) yn ystod 2008 - 09:

- trais domestig;
- treisio a throseddau rhywiol;
- masnachu mewn pobl, gyda ffocws ar fasnachu mewn pobl i ddiben ecsbloetiaeth rywiol;
- puteindra, gan gynnwys puteindra plant;
- priodas dan orfod, trais yn seiliedig ar anrhydedd; a llurgunio organau rhywiol menywod;
- cam-drin plant;
- pornograffi;
- troseddau yn erbyn pobl hŷn.

Mae'r troseddau hyn wedi'u grwpio o dan ymbarél 'Trais yn Erbyn Menywod' oherwydd eu proffil – achosion sydd wedi'u cyflawni'n bennaf, er nad bob amser, gan ddynion yn erbyn menywod, o fewn cyddestun pŵer a rheolaeth. Ar gyfer trais domestig, treisio, troseddau rhywiol, a ble fo'n bosib ar gyfer cam-drin plant, mae perfformiad erlyniad yn 2008 – 09 yn cael ei gymharu â data o flynyddoedd blaenorol. Hefyd cynhwysir data ar erlyniad troseddau yn erbyn pobl hŷn yn 2008 – 09. Mae Canolfan Masnachu mewn Pobl y Deyrnas Unedig wedi darparu data ar erlyniad achosion masnachu mewn pobl. Darparwyd peth data hefyd ar y nifer o droseddau a erlynwyd yn achos troseddau puteindra a phornograffi.

Mae'r adroddiad yn darparu data mewn adrannau ar wahân i bob un o feysydd TEM, gan gynnwys gwaith presennol a gwaith sydd wedi'i gynllunio o dan bob testun a nifer o astudiaethau achos. Mae'r data gorau sydd ar gael yn cael eu hadrodd, tra'n cydnabod bod rhai diffygion yn yr hyn sydd ar gael. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau gwelliant parhaus yn ansawdd y data.

Strategaeth a Chynlluniau Gweithredu TEM y CPS

Yn Ebrill 2008 cyhoeddodd y CPS y strategaeth TEM a chynlluniau gweithredu adran llywodraeth cyntaf. Mae'r strategaeth yn gysylltiedig â Dangosyddion Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus (PSAs) presennol y CPS o:

- wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y System Gyfiawnder Droseddol (CJS) drwy ddod â mwy o droseddwyd troseddau TEM gerbron llys;
- gwella hyder y cyhoedd a rhanddeiliaid TEM yn y CPS;
- gwella cymorth, diogelwch a bodlonrwydd tystion a dioddefwyr TEM;
- rhoi sylw i unrhyw ddiffyg cymesuredd ar draws yr holl feysydd cydraddoldeb o fewn TEM.

Mae'r strategaeth TEM wedi'i dynodi fel un o naw phrosiect 'cenhadaeth hanfodol' o fewn y CPS, yn dangos y pwysigrwydd a roddir ar y gwaith hwn. Er bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar asesiad meintiol o'r erlyniadau ar draws TEM, mae'r gwaith yn ei gyfanrwydd yn cydnabod nad yw 'llwyddiant' mewn achosion TEM yn cael ei fesur yn unig drwy welliannau mewn erlyniadau. Mae'r gwasanaeth hefyd yn bwriadu asesu gwelliannau ar draws targedau PSA eraill. Bydd arolwg bodlonrwydd rhanddeiliaid TEM yn cael ei ddatblygu a'i gynnal yn 2009 - 10. Hefyd, mae cynlluniau ar y gweill i sefydlu systemau i fesur cymorth, diogelwch a bodlonrwydd dioddefwyr TEM, i'w weithredu yn 2010 - 11. Mae ymchwil hefyd yn edrych ar unrhyw ddiffyg cymesuredd posib mewn perthynas ag erlyniad achosion TEM

yn ôl ethnigrwydd, gan gynllunio er mwyn rhoi sylw i ffyrdd o ddatblygu unrhyw welliannau sydd eu hangen.

O Ebrill 2008 gweithredwyd dangosydd TEM, fel un o'r prif flaenoriaethau mewn Adolygiadau Perfformiad Ardal er mwyn monitro perfformiad wrth ddod â mwy o droseddwr TEM gerbron llys. Mae pob Ardal yn cael ei asesu bob chwe mis, gydag adroddiadau'n mynd i'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus a'r Prif Weithredwr, naill ai drwy adroddiad ysgrifenedig neu gyfarfod. Mae'r holl feysydd yn cael o leiaf un cyfarfod y flwyddyn.

Yn 2008-09 rhoddodd y CPS sylw i berfformiad drwy'r dangosydd TEM mewn perthynas â thrais domestig, treisio a throseddau rhywiol. Y bwriad oedd gostwng canlyniadau aflwyddiannus, o gyhuddiad hyd at gwblhad, y targedau Mawrth 2009 sef: TEM ar y cyfan 29%; trais domestig 28%; treisio 41% a throseddau rhywiol 28%.

Gweithredu cynlluniau gweithredu TEM 2008 - 09

Gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y CJS drwy ddod â mwy o droseddwr troseddau TEM gerbron llys:

- *Lleihau canlyniadau erlyniad aflwyddiannus:*
Gyda 28%, aethpwyd tu draw i'r targed o ostwng canlyniadau aflwyddiannus i 29% ar gyfer yr holl erlyniadau TEM. Cafodd y targed o 28% ei gwrdd ar gyfer trais domestig, ond methwyd y targed o 41% ar gyfer canlyniadau treisio aflwyddiannus, ar 42%. Aethpwyd tu draw i'r targed o 28% ar gyfer troseddau rhywiol, ar 25%.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu data manwl pellach oddi mewn i bob adran. Yn gyffredinol, cafwyd y gwelliannau mwyaf mewn erlyniadau flwyddyn ar ôl blwyddyn mewn troseddau rhywiol a thrais domestig, o'i gymharu â chynnydd mawr yn nifer yr achosion o drais domestig. Cafodd mwy o achosion o drais domestig eu cyhuddo (65%); a'u herlyn yn fwy llwyddiannus (72%), gyda chynnydd mewn pledio'n euog (65%). Roedd y mwyafrif o achosion aflwyddiannus trais domestig oherwydd materion dioddefwyr, sy'n dangos mai cymorth i ddioddefwyr yw'r elfen bwysicaf o sicrhau gwelliannau parhaus. Mae'r 122⁸ o Lysoedd Trais Domestig Arbenigol yn anelu at ddarparu cymorth o'r fath, a sicrhau gwell canlyniadau erlyniad.

Mae erlyniadau Treisio wedi parhau i fod y rhai mwyaf heriol, ac mae cynlluniau yn eu lle ar gyfer 2009 – 10, fel yr amlinellwyd yn yr adran treisio o'r adroddiad hwn. Mae cyhuddiadau o dreisio wedi parhau'n isel (39%). Gall hyn fod yn arwydd o'r anawsterau sy'n rhan o erlyn treisio, yn enwedig pan fo mater yr achos yn ymwneud a p'un a wnaeth y dioddefwr gydsynio i gyfathrach rywiol neu beidio. Roedd pledio'n euog hefyd yn llawer is nag ar gyfer trais domestig, sef 35% o achosion a gwblhawyd. Gall y rhagolwg o gyfnod maith mewn carchar o ganlyniad i euogfarn olygu bod diffynyddion yn amharod i bledio'n euog mewn cyhuddiad o dreisio. Mae canlyniadau erlyniadau trosedd rhywiol wedi gwella, oherwydd cynnydd mewn pledio'n euog (62%), yn erbyn gostyngiad bach yn y nifer o achosion a erlynir.

Tra gall ynadon ddelio â llawer o achosion o drais domestig, rhaid i dreisio (a throseddau rhywiol difrifol eraill) gael eu cynnal mewn Llys y Goron gan farnwr a rheithgor. Dengys hyn rhai o'r prif wahaniaethau wrth erlyn achosion o'r fath. Gwelwyd mwy o ganlyniadau aflwyddiannus yn achos treisio a throseddau rhywiol eraill oherwydd rhyddfarnau yn dilyn treial, yn enwedig rhyddfarnau rheithgor, o'i gymharu â thrais domestig.

* Achredwyd pum SDVC pellach yn Hydref 2009

Mae hyn yn dangos yr angen am fwy o waith aml-asiantaeth gyda phartneriaid i ymdrin ag ymwybyddiaeth gyhoeddus a herio mythau a stereoteipiau o fewn a thu allan i'r System Cyfiawnder Troseddol.

Gostyngodd terfynu achosion ar gyfer y tri maes TEM, gyda llai o achosion yn aflwyddiannus oherwydd na chyflwynwyd tystiolaeth.

Mae targedau ar gyfer 2009 - 10 wedi'u gosod ar: 26% ar gyfer TEM yn gyfan gwbl; 26% ar gyfer trais domestig, 39% ar gyfer treisio a 23% ar gyfer troseddau rhywiol. Yn 2009 - 10, bydd adolygiadau perfformiad Ardal yn ystyried y nifer o achosion a erlynwyd mewn Ardaloedd, yn ogystal â'u cyfraddau athreuliad.

Mae gwaith yn cael ei ddatblygu i fonitro canlyniadau cam-drin plant, masnachu mewn pobl, priodas dan orfod, a thrais yn seiliedig ar anrhydedd. Hefyd mae troseddau puteindra a phornograffi yn cael eu monitro.

- *Datblygu Canllawiau TEM ar gyfer erllynyddion*
Rhoddwyd Canllawiau TEM i'r holl erllynyddion ym Mehefin 2009, yn disgrifio natur rywiaethol y troseddau hyn, gan ddarparu gwybodaeth ar batrymau cyffredin a phrif ofynion erlyn troseddau TEM. Roedd yn cynghori ar ffyrdd o wella erlyniad yr achosion hyn a diogelwch y dioddefwyr. Hefyd cynhwyswyd manylion sefydliadau cymorth TEM.
- *Cydlynu a rhesymoli cydlynwyr TEM ac ystyried rhesymoli erllynyddion arbenigol;*
Yn ystod 2008 - 09, gwelwyd Ardaloedd yn rhesymoli rolau'r cydlynwyr gwaith TEM er mwyn integreiddio dysgu a chydlynu gwaith ar draws y meysydd. Cynhaliwyd seminar ar gyfer yr holl gydlynwyr TEM yn Ebrill 2009.

Rhoddwyd ystyriaeth i resymoli erllynyddion arbenigol, a chytunwyd i barhau gydag Erllynyddion Arbenigol sy'n delio â threisio a throseddau uwch dechnoleg (pornograffi), a dewis arbenigwyr ychwanegol yn 2009-10 i erlyn priodas dan orfod a thrais yn seiliedig ar anrhydedd. Bydd erllynyddion un-pwrpas mewn Llysoedd TD Arbenigol hefyd yn parhau.

- *Datblygu achosion ar gyfer hyfforddiant TEM.*
Mae gwaith yn cael ei gynnal i ddatblygu astudiaethau achos TEM ar gyfer eu defnyddio ar draws rhychwant o raglenni hyfforddiant o fewn y CPS. Mae hyfforddiant i staff newydd ar erlyn trosedd trais domestig yn parhau. Cynhaliwyd hyfforddiant ar erlyn troseddau'n gysylltiedig â delweddau o blant yn ogystal â masnachu mewn pobl yn 2008 - 09. Bydd yr holl arbenigwyr treisio yn cael eu hyfforddi erbyn 2011, a chynlluniwyd rhaglen hyfforddiant newydd ar gyfer erllynyddion arbenigol dethol ar briodas dan orfod a thrais yn seiliedig ar anrhydedd ar gyfer 2009 - 10.

Gwella hyder y cyhoedd a rhanddeiliaid yn y CPS

- *Ilo Cynnwys rhanddeiliaid cymunedol yn lleol a chenedlaethol*
Sefydlwyd gr p ymgynghori allanol parhaol yn cynnwys prif rhanddeiliaid TEM cenedlaethol i gynghori'r CPS ar faterion TEM ac mae wedi bod ar waith ers dwy flynedd erbyn hyn.

Yn lleol mae Ardaloedd yn cynnwys eu rhanddeiliaid ac mae nifer o Ardaloedd gyda phaneli craffu penodol i drais domestig a throsedd casineb er mwyn craffu achosion lleol a thynnu allan y pwyntiau dysgu. Bydd unrhyw estyniad i'r paneli'n cael ei ystyried yn 2009 - 10.

Hefyd mae gwaith wedi'i gynllunio yn 2009 - 10 i adolygu'r ymgysylltiad cymunedol ac ymglymiad rhanddeiliaid yn yr Ardal TEM.

- *Datblygu system i fesur bodlonrwydd rhanddeiliaid*
Gweithredwyd system yn ystod 2009 - 10 er mwyn mesur bodlonrwydd rhanddeiliaid TEM drwy holiaduron a grwpiau ffocws.

Gwella cymorth, diogelwch a bodlonrwydd dioddefwyr

- *Gweithio gyda'r Uned Cyflenwi Gofal Dioddefwyr & Thystion (V&WCDU) i ystyried systemau cymorth i ddioddefwyr TEM.*
Mae'r V&WCDU yn ystyried darparu gwybodaeth bellach ar gefnogi dioddefwyr TEM drwy Unedau Gofal Tystion, yn ychwanegol at y rhychwant presennol o asiantaethau cymorth, ar gyfer yr Unedau Gofal Tystion hynny mae gan ddioddefwyr a thystion fynediad atynt eisoes. Cynhaliodd yr V&WCDU ymarfer ar erlyniadau trais domestig yn 2008 - 09 i gynllunio gwell cymorth i ddioddefwyr yn 2009 - 10. Mae'r Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth hefyd yn gweithio gyda'r V&WCDU gyda'r bwriad o wella monitro gwybodaeth dioddefwyr.
- *Systemau cymorth Ardal ar gyfer dioddefwyr*
Mae'r Canllawiau TEM yn cynnwys rhestrau o sefydliadau TEM cenedlaethol sy'n gallu darparu cyngor i Ardaloedd ar grwpiau lleol.
- *Cymorth ar gyfer dioddefwyr TEM*
Erbyn Ebrill 2009, roedd 122 o Lysoedd Trais Domestig Arbenigol, gyda chymorth i ddioddefwyr drwy Gynghorwyr Annibynnol ar DD (IDVAs), a chynllunnir llysoedd achrededig pellach ar gyfer 2009 - 11.
- *Polisiau gweithwyr TEM*
Yn 2009-10, ystyrir estyniad i'r polisi gweithwyr trais domestig i ymdrin ag anghenion unrhyw staff CPS sy'n wynebu ffurfiau eraill o TEM.
- *Datblygu system i fesur cymorth, diogelwch a bodlonrwydd dioddefwyr.*
Mae'r CPS yn arwain gr p llywio ar draws y System Cyfiawnder Troseddol sy'n datblygu system i fesur cymorth, diogelwch a bodlonrwydd ar gyfer dioddefwyr TEM. Mae hyn i'w gwblhau'n ystod 2009 - 10.

Ymdrin ag unrhyw ddiffyg cymesuredd ar draws yr holl feysydd cydraddoldeb

- *Dadansoddi proffiliau cydraddoldeb diffynnyddion a dioddefwyr TEM*
Mae proffiliau cydraddoldeb ddiffynnyddion, yn ôl rhyw ac ethnigrwydd, yn derbyn sylw ac adroddir yn ôl arnynt yn yr adroddiad hwn. Mae data ar ddioddefwyr yn dal i gael ei ddatblygu.
- *Asesiad o erlyniadau yn ôl ethnigrwydd*
Yn dilyn yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac Amrywiaeth TEM, mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i asesu erlyniadau yn ôl ethnigrwydd y diffynnydd, ac ymdrin ag unrhyw ddiffyg cymesuredd.
- *Sicrhau bod gan Unedau Gofal Tystion systemau cymorth a gwybodaeth yngl n â chymorth i ddioddefwyr a thystion yn yr holl gymunedau.*
Yng ngwaith y V&WCDU, mae systemau cymorth ar gyfer rhychwant o gymunedau'n cael sylw ar hyn o bryd.

Gwaith traws-lywodraeth ar Drais yn erbyn Menywod

Roedd y CPS yn rhan o'r ymgynghoriad ar ddatblygiad strategaeth traws-lywodraeth ar Drais yn erbyn Menywod yn 2008 - 09. Mae'r CPS yn rhan o nifer o grwpiau traws-lywodraeth sy'n gweithio ar y gwahanol feysydd TEM, yr adroddir yn ôl arnynt yn yr adroddiad hwn.

Prif Ganfyddiadau Trosedd Trais yn Erbyn Menywod

Ers Ebrill 2008, mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi adrodd ar erlyn troseddau trais yn erbyn menywod (TEM) fel rhan o'r broses adolygu perfformiad, gan fesur canlyniadau'n erbyn dangosydd perfformiad sydd yn amcanu at ostwng canlyniadau aflwyddiannus. Mae'r troseddau TEM a gynhwysir yn y dangosydd hwn, ac yn y rhan hon o'r adroddiad, yn cynnwys trais domestig, treisio, a throseddau rhywiol eraill heblaw am dreisio. Cyn Ebrill 2008, roedd trais domestig yn cael ei gofnodi a'i adrodd fel trosedd casineb. Mae data ar droseddau TEM yn cael eu cofnodi o fewn y System Rheoli Achosion Compass (CMS), ac yn cael ei dynnu o'r System Rheoli Gwybodaeth Compass (MIS) gysylltiedig.

Mae gwahaniaethau trefniadol bychain yn y ffyrdd y mae data'n cael ei ddal. Dynodir achosion o drais domestig a threisio trwy gysylltu baneri monitro achos a osodir gan y defnyddiwr CPS ar gam cyn cyhuddo. I'r gwrthwyneb, mae troseddau rhywiol yn cael eu dynodi gan ddefnyddwyr CMS ar ddiwedd achosion. Felly, tra'i bod yn bosib dynodi penderfyniadau cyn cyhuddo gydag achosion o drais domestig a threisio, nid oes unrhyw gofnod cyfatebol o benderfyniadau cyn cyhuddo ar gyfer troseddau rhywiol; dim ond cofnod o ganlyniadau terfynol yr achosion. Dangosodd y broses reolaidd o archwilio ansawdd data nifer o wallau ac esgeulustod yn y dynodiad o achosion TEM, ond mae'r rhain yn cynrychioli llai na 3% o sampl gyfyngedig a archwiliwyd hyd yma.


Mae erlyniadau a gwblhawyd yn dod i mewn i ddau gategori: euogfarnau, yn cynnwys pledio'n euog, euogfarnau yn dilyn treial, ac achosion a gafodd eu profi yn absenoldeb y diffynnydd; a chanlyniadau aflwyddiannus, sef yr holl ganlyniadau eraill yn cynnwys terfynu achos, cwblhau'r gwaith gweinyddol, achosion traddodi a ryddhawyd, gwrthod achosion ar ôl treial, a gwrthod achosion am nad oes achos i'w ateb, rhyddfarnau gan y barnwr a rhyddfarnau rheithgor.

Mae'r holl ganlyniadau mewn perthynas ag achosion a gyhuddwyd, ac yn cynnwys yr holl ddiffynyddion waeth beth fo'u hoedran ac oedran eu dioddefwyr

Cyhuddo

Yn Ebrill 2006, cyflwynwyd y broses o gyhuddo statudol o ddiffynyddion gan y CPS yn llawn. Yn ystod y tair blynedd yn dilyn y dyddiad hwnnw, atgyfeiriwyd 240,000 o achosion a ddynodwyd yn rhai a oedd yn cynnwys trais yn erbyn menywod at y CPS am benderfyniad cyhuddo. Mae'r tabl a'r siart isod (1) yn dangos bod dros 143,000 o'r rhain wedi'u cyhuddo yn ystod y cyfnod tair blynedd. Nid yw'r ffigyrau cyhuddo'n cynnwys troseddau rhywiol heblaw am dreisio, gan y dynodir y troseddau hyn yn unig pan fydd diffynnydd yn cael ei gyhuddo'n ffurfiol.

Cynyddodd y gyfran o achosion a gyhuddwyd o 53% o achosion TEM a gyfeiriwyd at y CPS yn 2006 - 07 i 63% yn 2008-09. Ar yr un pryd, gostyngodd cyfran y rheiny na chyhuddwyd neu ble'r oedd angen tystiolaeth bellach. Cynyddodd nifer yr achosion a gyflwynwyd am benderfyniad cyhuddo gan y CPS yn ystod y cyfnod. Mae'r gyfran o achosion a gyhuddwyd o fewn pob math o drosedd yn cael eu hadrodd yn rhan berthnasol yr adroddiad hwn. Roedd cyfraddau cyhuddo'n amrywio ar draws y meysydd. Yn 2008 - 09, cyhuddwyd 65% o achosion o drais domestig, yn adlewyrchu'r gwaith hanesyddol a wnaethpwyd i wella erlyniadau trais domestig. Gall hefyd fod yn arwydd o'r anawsterau sy'n rhan o erlyn treisio, yn enwedig pan fydd anghydfod ynghylch p'un a wnaeth y ddioddefwraig gydsynio.

Tabl 1 – Penderfyniadau Cyhuddo*


Holl Ddiffinyddion	2006-07		2007-08		2008-09	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Cyhuddwyd	38,920	53.1%	49,335	61.8%	54,983	63.2%
Cais am dystiolaeth bellach	897	1.2%	565	0.7%	510	0.6%
Dim erlyniad	21,699	29.6%	23,113	29.0%	23,977	27.6%
Holl benderfyniadau eraill	11,713	16.0%	6,774	8.5%	7,550	8.7%
Cyfanswm	73,229		79,787		87,020	

Cyflwynwyd Cyhuddo Statudol yn llawn ar 3 Ebrill 2006

* Mae'r ffigyrau a gynhwyswyd yn adroddiad 2007 – 08, ac eithrio'r achosion hynny ble nad oedd canlyniad y penderfyniad wedi ei gofnodi'n llawn yng nghofnodion y CPS. Er mwyn cyflawnrwydd, nid yw'r canlyniadau hyn wedi'u hychwanegu at yr adroddiad presennol. Mae'r ffigyrau uchod felly'n wahanol i'r rhai yn adroddiad y llynedd.

Euogfarnau

Yn y tair blynedd yn diweddu Mawrth 2009, cafodd 222,900 o ddiffinyddion eu herlyn am drais yn erbyn menywod. Mae tabl a siart 2 isod yn rhoi dadansoddiad o erlyniadau dros y cyfnod tair blynedd, yn dangos bod euogfarnau wedi codi o 65% yn 2006 – 07 i 72% yn 2008 – 09.

Tabl 2 – Erlyniadau a Gyflawnwyd yn ôl Canlyniad


	2006-07		2007-08		2008-09	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Euogfarnau	44,836	65.0%	51,974	68.9%	56,438	71.9%
Aflwyddiannus	24,094	35.0%	23,478	31.1%	22,085	28.1%
Cyfanswm	68,930		75,452		78,523	

Mae'r tabl a siartiau isod yn dangos dadansoddiad manwl o ganlyniadau erlyn ar gyfer TEM rhwng 2006 – 07 a 2008 – 09. Cynyddodd pledio'n euog o 56% i 63%, gan gyfrannu at well cyfradd euogfarn o 72% yn gyffredinol yn 2008 – 09. Gostyngodd erlyniadau a ollyngwyd gan y CPS, gan gynnwys terfynu achosion a'r rheiny ble nad oedd unrhyw dystiolaeth yn cael ei chynnig, o 26% i lai na 21%.


Gosodwyd targed cyffredinol ar gyfer gostyngiadau mewn canlyniadau aflwyddiannus mewn troseddau TEM ar 29% yn 2008 - 09. Aethpwyd tu draw i hyn gyda chanlyniad o 28% erbyn chwarter olaf y flwyddyn. O fewn y targed cyffredinol roedd is-dargedau ar wahân ar gyfer trais domestig, treisio a throseddau rhywiol. Tra aethpwyd tu draw i'r targedau ar gyfer trais domestig a throseddau rhywiol ystod y cyfnod, ni chafodd y targed ar gyfer treisio ei gwrdd. Gellir canfod manylion pellach yn y rhan treisio o'r adroddiad hwn.

Tabl 3 – Canlyniadau Erlyn

Euogfarnau



Canlyniadau Aflwyddiannus





Erlyniadau wedi'u Cwblhau yn ôl Math o Drosedd TEM

	2006-07		2007-08		2008-09	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Cwblhau gwaith gweinyddol	774	1.1%	858	1.1%	701	0.9%
Achosion traddodi a ryddhawyd	199	0.3%	209	0.3%	203	0.3%
Erlyniadau a Ollyngwyd yn cynnwys dirwyn achosion i ben, heb gynnig tystiolaeth, a thynnu'n ôl	18,142	26.3%	17,723	23.5%	16,197	20.6%
<i>o'u plith – ni chynigiwyd tystiolaeth</i>	8,890	12.9%	9,635	12.8%	8,657	11.0%
Gwrthodwyd ar ôl treial llawn	2,532	3.7%	2,559	3.4%	2,702	3.4%
Dim achos i'w ateb	313	0.5%	266	0.4%	293	0.4%
Rhyddfarn gan y Barnwr	275	0.4%	252	0.3%	204	0.3%
Rhyddfarn Rheithgor	1,859	2.7%	1,611	2.1%	1,785	2.3%
Canlyniadau Aflwyddiannus	24,094	35.0%	23,478	31.1%	22,085	28.1%
Pledio'n euog	38,495	55.8%	45,307	60.0%	49,725	63.3%
Euogfarn yn dilyn achos	6,209	9.0%	6,548	8.7%	6,605	8.4%
Profwyd mewn absenoldeb	132	0.2%	119	0.2%	108	0.1%
Euogfarnau	44,836	65.0%	51,974	68.9%	56,438	71.9%
Cyfanswm Erlyniadau	68,930		75,452		78,523	

Erlyniad yn ôl math o drosedd TEM

Mae'r tabl a siartiau isod (4) yn dangos erlyniadau yn ôl math o drosedd TEM ar gyfer 2006-07 i 2008-09. Trais domestig oedd y gyfran fwyaf o'r cyfanswm ar 83% yn 2006 – 07 ac 85% yn 2008 – 09.




	2006-07		2007-08		2008-09	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Trais Domestig	57,361	83.2%	63,819	84.6%	67,094	85.4%
Treisio	3,264	4.7%	3,503	4.6%	3,495	4.5%
Troseddau Rhywiol ac eithrio treisio	8,305	12.0%	8,130	10.8%	7,934	10.1%
Cyfanswm	68,930		75,452		78,523	

Erlyniadau Aflwyddiannus

Mae achosion yn methu'n bennaf am resymau megis tystiolaeth annigonol, oherwydd nad yw'r erlyniad er budd y cyhoedd, neu oherwydd bod y diffynnydd yn cael ei ryddfarnu yn yr achos. Hefyd mae achosion sy'n methu mynd ymlaen oherwydd bod dioddefwyr neu dystion yn methu mynychu neu'n tynnu'n ôl, a'r achosion hynny sy'n destun i gwblhad gwaith gweinyddol. Roedd y cyfrannau ym mhob categori'n amrywio ychydig o'r flwyddyn flaenorol. Yn ystod 2008 – 09, roedd 3.2% yn aflwyddiannus am resymau gweinyddol o'i gymharu â 3.7% yn 2007 - 08; 39.1% am resymau tystiolaethol, cynnydd o 3 pwynt canrannol ar y flwyddyn flaenorol; 6.7% am resymau budd y cyhoedd, gostyngiad o 7.4% yn 2007 - 08; 28.5% yn methu mynd ymlaen, o'i gymharu â 30.8% y flwyddyn flaenorol; a 22.4% am resymau eraill, cynnydd o 1.5 pwynt canrannol ar y flwyddyn flaenorol.

Mae Tabl 5 yn rhoi dadansoddiad gwell, yn dangos y gyfran a fethodd oherwydd materion dioddefwyr (gan gynnwys dioddefwyr yn tynnu'n ôl ac achosion ble na wnaeth y dioddefwr fynychu'r gwrandawriad llys), y rheiny sy'n arwain at rwymo, a'r rheiny ble cafodd y diffynnydd ei rybuddio. Oddi mewn i'r prif resymau hyn, gostyngodd achosion o ddioddefwyr yn tynnu'n ôl o 3 pwynt canrannol, o 19.7% i 16.7% yn ystod y cyfnod adolygiad, tra bu cynnydd mawr o ychydig dros 5 pwynt canrannol yn y gyfran methiant oherwydd diffyg presenoldeb y dioddefwr, ac yn y gyfran ble nad oedd tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi achos yr erlyniad. Gostyngodd y gyfran methiant cyffredinol oherwydd rhesymau allweddol rhyw ychydig, o 51% i 49% o'r holl ganlyniadau aflwyddiannus.

Table 5 – Prif Resymau dros Erlyniadau Aflwyddiannus



	2006-07		2007-08		2008-09	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Dioddefwr yn Tynnu'n Ôl	4,747	19.7%	4,440	18.9%	3,690	16.7%
Diffyg Presenoldeb Dioddefwr	1,976	8.2%	2,465	10.5%	2,280	10.3%
Tystiolaeth Dioddefwr ddim yn cefnogi'r achos	3,370	14.0%	3,654	15.6%	3,757	17.0%
Cyfanswm Materion dioddefwyr	10,093	41.9%	10,559	45.0%	9,727	44.0%
Rhybudd	332	1.4%	282	1.2%	219	1.0%
Rhwymo	1,942	8.1%	1,343	5.7%	900	4.1%
Cyfanswm Prif Resymau	12,367	51.3%	12,184	51.9%	10,846	49.1%
Holl Resymau Eraill	10,953	45.5%	10,436	44.5%	10,538	47.7%
Cwblhau gwaith gweinyddol	774	3.2%	858	3.7%	701	3.2%
Cyfanswm	24,094		23,478		22,085	


Mae'r rhesymau dros ganlyniadau aflwyddiannus ym mhob maes unigol o drosedd TEM yn cael eu hadrodd yn y rhannau perthnasol o'r adroddiad hwn. Roedd gwahaniaethau i'w gweld yn achos y materion allweddol a oedd yn gyfrifol am ganlyniadau aflwyddiannus ar draws y meysydd: mae materion dioddefwyr yn hynod o amlwg fel ffactor mewn methiant achosion o drais domestig, ond yn llai amlwg yn achos meysydd trosedd eraill. Mae'r prif resymau dros erlyniadau aflwyddiannus yn achos treisio neu droseddau rhywiol yn cynnwys rhyddfarnau, elfennau cyfreithiol hanfodol ar goll, tystion annibynadwy, a gwrthdaro tystiolaeth.

Mae tabl a siart 6 yn dangos y nifer a chyfran materion dioddefwyr mewn perthynas â'r holl ganlyniadau. Gostyngodd nifer a chyfran y rhai aflwyddiannus oherwydd anawsterau dioddefwyr o 10,093 (14.6%) yn 2006 – 07 i 9,727 (12.4%) yn 2008 – 09. Gostyngodd cyfanswm canlyniadau aflwyddiannus o 35% yn 2005 – 06 i 28% yn 2008 – 09.


Roedd materion dioddefwyr yn cyfrif am 16.9% o ganlyniadau trais domestig yn 2005 – 06, gan ostwng i 13.8% yn 2008 – 09.

Tabl 6 – Cymhariaeth o Faterion Dioddefwyr Allweddol

Materion Dioddefwyr mewn perthynas â'r holl Ganlyniadau



% Materion Dioddefwyr



	2006-07		2007-08		2008-09	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
<i>Cyfanswm Aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr</i>	10,093	14.6%	10,559	14.0%	9,727	12.4%
Cyfanswm Aflwyddiannus	24,094	35.0%	23,478	31.1%	22,085	28.1%
Cyfanswm Euogfarnau	44,836	65.0%	51,974	68.9%	56,438	71.9%
Cyfanswm Erlyniadau	68,930		75,452		78,523	

Prif gategori trosedd

Ar ddiwedd achosion, mae achos pob diffynnydd yn cael Prif Gategori Trosedd i ddangos math a difrifoldeb y cyhuddiadau a wnaethpwyd.

Troseddau yn erbyn yr unigolyn oedd y categori mwyaf niferus, yn cynrychioli 59% o erlyniadau trosedd TEM yn 2008 - 09; ychydig llai na'r flwyddyn flaenorol (62%). Roedd Troseddau Rhywiol a difrod troseddol yn cyfrif am 16% ac 11% pellach yn ôl eu trefn. Mae rhannu bob categori'n ôl rhyw yn dangos y cofnodwyd patrwm tebyg ar gyfer diffynnyddion gwryw, gyda 59% yn cael eu categorio fel troseddau corfforol, 16% yn droseddau rhywiol ac 11% yn ddifrod troseddol. Roedd patrwm ychydig yn wahanol ar gyfer diffynnyddion benywaidd, gyda throseddau corfforol a difrod troseddol yn uwch ar 61% a 12%, tra bod troseddau rhywiol yn is ar 9%. Roedd troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus yn gyfran uwch yn achos menywod na dynion, ar 9% o'i gymharu â 5%. Dynion oedd 94% o ddiffynnyddion ble y dynodwyd eu prif drosedd fel trosedd erbyn yr unigolyn, yn debyg i'r flwyddyn flaenorol. Mewn achosion o drais domestig, troseddau corfforol oedd y mwyaf niferus ar gyfer dynion a menywod, ar 69% a 66% yn ôl eu trefn, o'u cymharu â 73% a 72% yn 2007 - 08.

Tynnu'n Ôl

Er bod cyfleusterau ar gyfer casglu gwybodaeth ynglŷn â thynnu'n ôl wedi bod yn ei le ers Ebrill 2007, mae cyflawnrwydd a dibynadwydd y data yn parhau i fod mewn cyfnod o ddatblygu. Mae gwaith yn cael ei wneud yn 2009 – 2010 i wella casglu data a'i ansawdd.


Cydraddoldebau

(i) Diffynyddion

Rhyw

Mae Tabl 7 yn rhoi dadansoddiad o ryw diffynyddion a dioddefwyr yn ôl eu trefn. Ni fu newid mawr yn y gyfran o ddynion a erlynwyd, sef 95% yn 2006 – 07 a 94% yn 2008 - 09. Yn y cyfnod olaf roedd 94% o ddiffynyddion mewn erlyniadau trais domestig, 99% mewn achosion treisio, a 95% mewn troseddau rhywiol heblaw am dreisio, yn ddynion.

Tabl 7 – Erlyniadau wedi'u Cyflawni yn ôl Rhyw'r Diffinydd



	2006-07		2007-08		2008-09	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Menywod	3,339	4.8%	4,176	5.5%	4,668	5.9%
Dynion	65,580	95.1%	71,263	94.4%	73,827	94.0%
Anhysbys	11	0.0%	13	0.0%	28	0.0%
Cyfanswm	68,930		75,452		78,523	

Ethnigrwydd

Mae data ethnigrwydd ar ddiffynyddion yn cael ei gasglu gan y CPS yn unol â'r diffiniadau System Cyfiawnder Troseddol cytunedig ar gyfer y categorïau ethnig 16+1. Yn 2008 - 09, nodwyd bod 76% o ddiffynyddion trosedd TEM yn perthyn i gategori Prydeinig Gwyn, a chafodd 79% eu categorio yn Wyn (77% a 80% yn 2007 - 08); 5% o ddiffynyddion a ddynodwyd yn Asiaidd, a 6% pellach fel Du, gyda ffigwr debyg y flwyddyn flaenorol. Ni wnaeth 3% o ddiffynyddion ddatgan ethnigrwydd ar arestiad ac mewn 4% o achosion pellach, ni chafodd y cofnod ethnigrwydd ei gwblhau.

Data cydraddoldeb arall

Mae data ar grefydd neu gredo ac anabledd diffynyddion wedi'i gasglu ers Ebrill 2007, ac mae cyflawnrwydd a chywirdeb y data hwn yn dal i gael ei ddatblygu.


(ii) Dioddefwyr

Rhyw

Mae Tabl 8 yn rhoi dadansoddiad o ryw dioddefwyr. Cafwyd y data ar ddioddefwyr o'r System Reoli Tystion, a dim ond ers Ebrill 2006 mae ar gael. Cafwyd gwelliannau wrth gofnodi rhyw. Yn 2006 – 07, ni chafodd rhyw 66% o ddioddefwyr ei gofnodi. Gostyngodd hyn i 36% yn 2008 – 09. Fodd bynnag, mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn dal i gael ei ddatblygu. Nid oes unrhyw ddata'n cael

ei gadw ar ddioddefwyr troseddau rhywiol heblaw am dreisio. O'r dioddefwyr hynny ble y dynodwyd eu rhyw, roedd y gyfran uchaf yn fenywod, sef 85% yn 2006 – 07, 86% yn 2007 – 08 ac 85% yn 2008 - 09. Ble y dynodwyd rhyw, roedd 85% o ddioddefwyr yn fenywod mewn achosion o drais domestig, ac 88% yn fenywod mewn achosion o dreisio.

Tabl 8 – Rhyw Dioddefwyr*



	2006-07		2007-08		2008-09	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Menywod	7,892	29.3%	19,514	37.3%	34,705	54.5%
Dynion	1,405	5.2%	3,239	6.2%	6,064	9.5%
Anhysbys	17,682	65.5%	29,524	56.5%	22,914	36.0%
Cyfanswm	26,979		52,277		63,683	

* Nid yw data'n cynnwys dioddefwyr Troseddau Rhywiol sy'n eithrio treisio.

Adroddwyd data o 2006 - 07 ar gyfer yr holl ddioddefwyr boed hwy'n ddinasyddion neu beidio; dim ond am ddioddefwyr sy'n ddinasyddion mae data 2007 - 08 yn adrodd.

Data cydraddoldeb arall

Cafwyd y data ar ddioddefwyr o'r System Reoli Tystion. Mae data ar ethnigrwydd ar gael o Ebrill 2006 ymlaen, a data ar grefydd neu gredo ac anabledd o Ebrill 2007 ymlaen. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn dal i gael ei ddatblygu, ac felly ni chynhwysir y ffigyrau yn yr adroddiad presennol. Mae gwaith yn cael ei wneud yn 2009 – 2010 i wella casglu data a'i ansawdd.

Gwasanaethau Trosedd Trais Domestig

Casglwyd gwybodaeth am wasanaethau cymorth arbenigol ar gyfer dioddefwyr trosedd casineb, a oedd yn arfer cynnwys trais domestig, ers Ebrill 2007, ac mae hefyd yn parhau i gael ei ddatblygu. Nid oes unrhyw system, hyd yma, wedi'i sefydlu ar gyfer TEM yn gyffredinol, felly mae'r data isod yn cyfeirio'n unig at achosion o drais domestig yn 2008 - 09. O blith y dioddefwyr a thystion trais domestig hynny a gafodd eu hatgyfeirio at wasanaeth cymorth neu asiantaeth arbenigol, cofnodwyd mai ychydig o dan 1% a gafodd eu hatgyfeirio at 'asiantaeth arbenigol trosedd casineb' benodol. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn dal i gael ei datblygu: fodd bynnag, atgyfeiriwyd ychydig dros 76% naill ai at asiantaeth cymorth dioddefwyr neu dystion, tra bu 23% yn destun i 'atgyfeiriad arall'.

Perthnasau – Achosion o drais domestig yn unig

Er bod cyfleusterau ar gyfer casglu gwybodaeth ar y berthynas rhwng y diffynnydd a'r dioddefwr mewn achosion o drais domestig wedi bod yn ei le ers Ebrill 2007, mae cyflawnrwydd a dibynadwydd y data yn parhau i gael ei ddatblygu. Mae gwaith yn cael ei wneud yn 2009 – 2010 i wella casglu data a'i ansawdd.

TRAIS DOMESTIG

Cyhoeddodd y CPS ail ddiwygiad o'i Bolisi a Chyfarwyddyd ar Erlyn Achosion o Drais Domestig ym Mawrth 2009. Roedd yr argraffiad diweddaraf yn tynnu at ei gilydd y newidiadau sylweddol mewn cyfraith, polisi a gweithdrefnau sydd wedi digwydd ers yr ail ddiwygiad yn 2005. Roedd y rhain yn cynnwys y ffaith bod torri gorchmynion gwrth ymyrraeth yn dod yn drosedd, ac roeddynt yn cael eu cefnogi hefyd gan daflen dioddefwyr a thystion newydd, a oedd yn ymdrin â rhai o'r cwestiynau mwyaf cyffredin sy'n codi mewn achosion o drais domestig.

Cefnogwyd Polisi a Chyfarwyddyd 2001 gan sefydliad rhwydwaith o Gydlynwyr Trais Domestig (DVCs) ym mhob Ardal CPS. Yn 2008 - 09 ystyriodd yr holl Ardaloedd rôl gwaith cydlynwyr Trais yn erbyn Menywod yn ei gyfanrwydd. Dewisodd rhai Ardaloedd Gydlynwyr TEM gydag eraill yn cynnal cydlynwyr TD a Thrais Rhywiol ar wahân, gan integreiddio'r meysydd TEM eraill yn eu gwaith. Mae gan y Cydlynwyr rôl strategol a gweithredol yn yr Ardaloedd, ac maent yn hanfodol i sicrhau gweithrediad y polisi yn lleol.

Cwblhawyd y gyfran gychwynnol o hyfforddiant trais domestig ar gyfer erlynyddion a gweithwyr achos CPS yn Rhagfyr 2008. Gwerthuswyd y rhaglen hyfforddiant ym Medi 2008. Prif ganfyddiadau'r gwerthusiad oedd bod yr hyfforddiant wedi cyfrannu at y cynnydd mewn erlyniadau llwyddiannus ac wedi cael effaith bositif ar agweddau erlynyddion tuag at drais domestig.

Datblygwyd astudiaeth achos newydd yn seiliedig ar raglen hyfforddiant i'w defnyddio gan staff o 2009. Cefnogir y rhaglen wyneb i wyneb hon gan fodiwl e-ddysgu, sy'n darparu dysgu sylfaen. Bydd gofyn i staff newydd⁹ gwblhau'r hyfforddiant hwn o fewn 2 flynedd o ymuno â'r sefydliad.

Mae'r CPS hefyd yn rhan o Raglen Llys Arbenigol Trais Domestig Cenedlaethol (SDVC). Mae'r rhaglen hon yn parhau i ymestyn gyda'r nifer o SDVCs wedi cyrraedd 122¹⁰ erbyn Ebrill 2009. Hefyd, darparwyd Cynghorwyr Annibynnol ar DD i gefnogi dioddefwyr, a chynhaliwyd dros 200 o Gynadleddau Asesu Risg Aml-Asiantaeth. Mae'r rhaglen yn mynd rhagddi'n dda i gwrdd â tharged y Llywodraeth o 128 SDVCs erbyn 2011. Mae llywodraethiad SDVCs a'u rheolaeth perfformiad wedi'i ddatganoli i Fyrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol (LCJBs), gyda 2009 - 10 yn gweithredu fel blwyddyn bontio.

Erbyn hyn, mae trais domestig yn cael ei fonitro fel rhan o'r dangosydd Trais yn Erbyn Menywod (TEM). Cafodd y targed o ostwng canlyniadau erlyniad aflwyddiannus i 28% erbyn Mawrth 2009 ei gwrdd ac aethpwyd tu draw iddo i 27.8% yn 2008 - 09. Y targed newydd ar gyfer achosion aflwyddiannus ar gyfer 2009 - 10 yw 26% erbyn Mawrth 2010.

Yn 2008 - 09, cynyddodd y penderfyniad i gyhuddo i 65% o benderfyniadau cyn cyhuddo, gyda llai o achosion angen ceisiadau am dystiolaeth bellach, a thrwy hynny'n cyflymu cyflymder erlyniadau. Roedd y cynnydd i 65% mewn pledio'n euog hefyd yn dangos gostyngiad mewn yn y cyfnod o gyhuddo i ganlyniad, gyda'r angen am lai o achosion ar gyfartaledd.

Roedd 94% o ddiffynyddion yn ddynion, fel yn y blynyddoedd blaenorol. Arhosodd y gyfran o ddioddefwyr a oedd yn fenywod yr un fath ar 85%. Roedd y mathau o droseddau'n amrywio ychydig yn ôl rhyw, gyda mwy o ddynion yn gyfrifol am droseddau corfforol (69% i ddynion a 66% i fenywod, o'u holl droseddau) a mwy o fenywod yn gyfrifol am droseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus (10% o droseddau a gyflawnwyd gan fenywod o'i gymharu â 6% o'r rhai a gyflawnwyd gan ddynion). Dynion oedd 94% o ddiffynyddion ble y dynodwyd troseddau corfforol fel eu prif drosedd. Roedd 81% o ddiffynyddion yn Wyn, 5% yn Ddu a 5% Asiaidd, gyda 3% heb nodi ethnigrwydd a 4% pellach heb eu cofnodi.

⁹ Mae hyn yn cynnwys staff yn dychwelyd o unrhyw gyfnod o absenoldeb tymor hir.

¹⁰ 127 o SDVCs erbyn Hydref 2009

Terfynwyd llai o achosion, mewn termau nifer a chyfran, yn cynnwys y rheiny ble nad oedd tystiolaeth yn cael ei chynnig. O'r holl erlyniadau, roedd materion dioddefwyr yn cyfrif am lai o achosion aflwyddiannus yn ôl nifer a chyfran. Fodd bynnag, roedd materion dioddefwyr yn cyfrif am hanner yr holl achosion aflwyddiannus. Mae'r patrymau wedi newid yn ddiweddar, fodd bynnag, yn yr ystyr bod cyfran is o achosion wedi'u cofnodi fel rhai aflwyddiannus oherwydd bod dioddefwyr yn tynnu'n ôl. Roedd cyfran uwch oherwydd diffyg presenoldeb dioddefwyr nag mewn blynyddoedd blaenorol a'r gyfran uchaf oherwydd nad oedd tystiolaeth y dioddefwyr yn cefnogi'r achos. Mae hyn yn parhau i ddangos yr angen am gymorth i ddioddefwyr, yn enwedig drwy Gynghorwyr Annibynnol ar DD (IDVAs) i sicrhau nid yn unig ostyngiad mewn tynnu'n ôl, ond hefyd parodrwydd i fynychu llys neu barhau gyda thystiolaeth gefnogol. Gallai gwaith gyda'r Uned Cyflenwi Gofal Dioddefwyr a Thystion i wella atgyfeiriadau fod o gymorth.

Mae'r CPS yn rhan o'r tîm traws-lywodraeth cenedlaethol sy'n cyflenwi gwaith y Llywodraeth ar drais domestig. Ateir y grŵp gan gynllun cyflenwi cenedlaethol, yr adroddir arno bob blwyddyn.

Ym Mawrth 2009, thema'r CPS ar gyfer Mis Gweithredu'r Llywodraeth ar drais domestig cenedlaethol oedd trais domestig ac anabledd. Yn ogystal â darparu hyfforddiant i rychwant o bartneriaid cymunedol, yn enwedig i'r rheiny sy'n cynnig cymorth penodol i ddioddefwyr anabl, cafodd erlynyddion CPS hefyd hyfforddiant gan y gwasanaeth cymorth i'w galluogi i erlyn troseddau trais domestig yn cynnwys dioddefwyr anabl yn well.

Yn ystod 2009 - 10 bydd arweinwyr TD y CPS yn gweithio'n agos gyda'r Uned Cyflenwi Gofal Dioddefwyr a Thystion i symud ymlaen ganfyddiadau'r adolygiad thematig trais domestig a gynhaliwyd yn ystod 2008 - 09.

Gweithredwyd Adran 12 o'r Ddeddf Trais Domestig, Troseddau a Dioddefwyr 2004 ar 30 Medi 2009. Cynhyrwyd cyfarwyddyd manwl i helpu erlynyddion gael gorchmynion atal ar unrhyw drosedd. Dylai hyn helpu dioddefwyr i fod yn fwy diogel mewn achos troseddol, waeth beth fo canlyniad penderfyniad yr achos; o gofio bydd gorchmynion ar gael ar euogfarn neu ryddfarn o dan amgylchiadau priodol.

Yn ystod 2009 - 10 bydd adolygiad traws-lywodraeth ar y diffiniad o drais domestig a gweithrediad argymhellion sy'n codi o ymgynghoriad arweiniol y Swyddfa Gartref ar 'Together we can end Violence Against Women And Girls'.

Bydd pecyn y wasg ar drais domestig hefyd yn cael ei ddatblygu yn ystod 2009 - 10.

Erlyniad dwbl

Daeth diffynnydd a oedd â hanes o drais difrifol yn erbyn menywod yr unigolyn cyntaf ym Mhrydain i gael ei euogfarnu am drosedd yr oedd wedi'i gael yn ddieuog ohoni'n flaenorol.

Pan yn bymtheg oed, roedd y diffynnydd wedi cael dedfryd o garchar am bedair blynedd am droseddau rhywiol difrifol. Yn 2002 cafodd ei glirio o lofruddio ei gariad. Roedd wedi dioddef pedwar neu bump o ergydion caled i'w phen, gan ei gadael yn anymwybodol ac roedd wedi marw'n fuan ar ôl hynny. Gan nad oedd unrhyw dystiolaeth o ymosodiad parhaus neu ddefnydd o arfau, bu rhaid i'r Goron dderbyn ei ble o ddynladdiad.

Fodd bynnag, chwe blynedd ar ôl hynny, ymosododd ar gariad arall gyda morthwyl. Dioddefodd honno anafiadau difrifol ond roedd yn gallu adnabod ei hymosodwr. Defnyddiwyd newid i'r gyfraith ar erlyniad dwbl i ailagor yr achos gwreiddiol o lofruddiaeth. Plediodd yn euog a chafodd ddwy ddedfryd oes.

Cyfathrebu rhwng Asiantaethau

IMewn un achos yn y gymuned Sikh, cafodd y Gwasanaeth Gofal Tystion (WCS) alwadau ffôn rheolaidd gan dad y diffynnydd yn dweud wrthynt fod y ddioddefwraig eisiau tynnu ei chwyn yn ôl. Dywedodd yr WCS mai dim ond gyda'r ddioddefwraig y buasent yn trafod yr achos a'r materion. Fodd bynnag, bob tro'r oeddynt yn ceisio cysylltu â hi, roedd y tad-yng-nghyfraith yn bresennol a daeth yn glir ei fod yn dominyddu'r sgysiau. Tra'r oedd ef yn y cefndir, dywedodd y ddioddefwraig wrth y WCS ei bod yn dymuno tynnu ei chwyn yn ôl.

Cysylltodd y WCS â'r erlynydd gyda'r wybodaeth hon, ac aeth ef ymlaen i siarad gyda'r heddlu; cytunwyd y byddai swyddog fenywaidd Asiaidd yn ymweld â'r ddioddefwraig ar amser pan oedd hi allan o dy'r teulu ac i ffwrdd oddi wrth ei thad-yng-nghyfraith. Yn ystod yr ymweliad, dywedodd wrth y swyddog mai'r unig beth yr oedd hi eisiau oedd cymorth i'w gŵr. Dywedodd nad oedd hi eisiau rhoi tystiolaeth yn ei erbyn mewn llys a chafodd y CPS ddatganiad tynnu'n ôl. Cysylltodd y CPS â'r swyddog a chael trafodaeth hir â hi am drefn y teulu a materion diwylliannol, a gofyn iddi siarad gyda'r ddioddefwraig am risg yn y dyfodol. Roeddynt eisiau sicrhau nad oeddynt yn ei rhoi mewn risg pellach drwy fwrw ymlaen gyda'r achos. Siaradodd y swyddog yn breifat gyda'r ddioddefwraig, a dywedodd y ddioddefwraig ei bod yn weddol hapus i'r CPS fwrw ymlaen gyda'r erlyniad hebddi.

Daeth yr achos i dreial gyda'r ddioddefwraig, er syndod llwyr y CPS, yn bresennol ar y dydd i roi tystiolaeth. Cafodd y diffynnydd ei euogfarnu ar ôl treial a'i ddedfrydu i orchymyn cymunedol 12 mis a gofynion goruchwyllo 12 mis.

Roedd y WCS yn rhagweithiol yn yr achos hwn, ac yn effro i'r materion gyda'r tad-yng-nghyfraith o'r dechrau. Bu defnydd o swyddog fenywaidd Asiaidd yn gymorth gyda'r materion diwylliannol a wynebai'r ddioddefwraig. Roedd y gwahanol asiantaethau'n gallu gweithio gyda'i gilydd a chyfathrebu i gael y canlyniad a gawsant.

Y Pwysigrwydd o Gyhuddo Priodol

Yn dilyn perthynas o ddwy flynedd ble'r oedd y diffynnydd yn yfed, gamblo ac mewn dyled ddifrifol, galwyd yr heddlu i achos torheddwch. Yn dilyn y digwyddiad hwnnw symudodd y ddioddefwraig i dŷ arall, a gwnaeth y diffynnydd nifer o fygythiadau drwy negeseuon testun, galwadau ffôn a negeseuon llais, gan gynnwys bygythiadau i anafu a lladd. Rhai dyddiau'n ddiweddarach, ymosododd y diffynnydd yn ffiadd ar y ddioddefwraig yn ei gardd, gan ddefnyddio arfau ac achosi anafiadau difrifol mewn ymosodiad maith.

Gwnaeth yr erlynydd gyhuddiad o ymgais i lofruddio ac Aflonyddu s4 a pharhaodd gyda'r cyhuddiadau hyn yn hytrach na chyhuddiad llai o niweidio bwriadol, y byddai'r diffynnydd wedi bod yn barod i'w derbyn a phledio'n euog iddo. Achosodd penderfyniad parhaus yr erlynydd i'r diffynnydd bledio'n euog ar ddydd y treial i ymgais i lofruddio ac aflonyddu s4. Rhoddwyd dedfryd amhenderfynadwy ar gyfer amddiffyniad cyhoeddus (IPP), a gorchymyn atal gydol oes. Cafodd erlynydd CPS yr achos wobwr Clod y Prif Gwnstabl am y gwaith ar yr achos hwn.


Prif Ganfyddiadau Trosedd Trais Domestig

Ers Ebrill 2005 mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi bod yn adrodd ar erlyn troseddau trais domestig fel rhan o'r broses adolygu perfformiad. Cafodd trais domestig ei gynnwys yn adroddiadau'r CPS ar drosedd casneb hyd at Fawrth 2008, ond o Ebrill 2008 adroddir amdano fel rhan o'r strategaeth drais yn erbyn menywod (TEM), gan fesur perfformiad yn erbyn dangosydd TEM newydd. Mae'r holl ganlyniadau mewn perthynas ag achosion a gyhuddwyd, ac yn cynnwys yr holl ddiffynyddion waeth beth fo'u hoedran ac oedran eu dioddefwr.

Cyhuddo

Cododd nifer yr achosion ble penderfynodd y CPS y dylid cyhuddo diffynnydd o 55.5% o'r achosion o drais domestig a atgyfeiriwyd at y Gwasanaeth yn 2006-07 i 65.2% yn 2008-09. Gostyngodd y cyfrannau o achosion heb gyhuddiad neu angen tystiolaeth bellach.

Tabl 1 – Penderfyniadau Cyn Cyhuddo*



Holl Ddiffynyddion	2006-07		2007-08		2008-09	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Cyhuddwyd	36,957	55.5%	47,115	63.6%	52,418	65.2%
Cais am dystiolaeth bellach	787	1.2%	510	0.7%	467	0.6%
Dim erlyniad	18,140	27.2%	20,088	27.1%	20,466	25.4%
Holl benderfyniadau eraill	10,755	16.1%	6,352	8.6%	7,072	8.8%
Cyfanswm	66,639		74,065		80,423	


Rhoddwyd Cyhuddo Statudol ar waith yn llawn ar 3 Ebrill 2006

* Mae'r ffigurau a gynnwyswyd yn adroddiad 2007 – 08 yn ac eithrio'r achosion hynny ble nad oedd canlyniad y penderfyniad wedi ei gofnodi'n llawn yng nghofnodion y CPS. Er mwyn cyflawnrwydd, nid yw'r canlyniadau hyn wedi'u hychwanegu at yr adroddiad presennol. Mae'r ffigurau uchod felly'n wahanol i'r rhai yn adroddiad y llynedd

Euogfarnau

Yn y pedair blynedd yn diweddu Mawrth 2009, cafodd dros 238,000 o ddiffnyddion eu herlyn am droseddau'n cynnwys trais domestig. Mae tabl a siart 2 isod yn rhoi dadansoddiad o erlyniadau dros y cyfnod pedair blynedd, yn dangos bod euogfarnau wedi codi o 60% yn 2005 - 06 i 72% yn 2008 - 09.



Tabl 2 – Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Canlyniad



	2005-06		2006-07		2007-08		2008-09	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Euogfarnau	29,719	59.7%	37,383	65.2%	43,977	68.9%	48,465	72.2%
Aflwyddiannus	20,063	40.3%	19,978	34.8%	19,842	31.1%	18,629	27.8%
Cyfanswm	49,782		57,361		63,819		67,094	

Mae'r tabl a'r siartiau isod yn rhoi dadansoddiad manwl o ganlyniadau erlyniadau ar gyfer troseddau trais domestig 2006– 07 to 2008 – 09. Cododd digwyddiadau o bledio'n euog o 58% i 65%, gan gyfrannu at well cyfradd euogfarnu o 72% ar y cyfan yn 2008 – 09. Bu gostyngiad yn yr erlyniadau a ollyngwyd gan y CPS, gan gynnwys terfynu achosion ac achosion ble na chynigiwyd tystiolaeth, o 28% i lai na 22%.

Yn 2008 – 09 y targed oedd gostwng erlyniadau trais domestig aflwyddiannus i 28% o'r cyfanswm. Aethpwyd tu draw i hyn erbyn diwedd y flwyddyn, sef 27.8%.


Tabl 3 – Canlyniadau Erlyn**Euogfarnau****Canlyniadau Aflwyddiannus**

	2006-07		2007-08		2008-09	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Cwblhau gwaith gweinyddol	689	1.2%	772	1.2%	597	0.9%
Achosion traddodi a ryddhawyd	137	0.2%	146	0.2%	151	0.2%
Erlyniadau a Ollyngwyd <i>gan gynnwys dirwyn achosion i ben, ni chynigiwyd tystiolaeth a thynnu'n ôl</i>	16,023	27.9%	15,788	24.7%	14,425	21.5%
<i>o'u plith – ni chynigiwyd tystiolaeth</i>	7,730	13.5%	8,505	13.3%	7,632	11.4%
Gwrthodwyd ar ôl treial llawn	2,302	4.0%	2,359	3.7%	2,554	3.8%
Dim achos i'w ateb	274	0.5%	253	0.4%	278	0.4%
Barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu	87	0.2%	83	0.1%	77	0.1%
Rhyddfarnu gan reithgor	466	0.8%	441	0.7%	547	0.8%
Canlyniadau Aflwyddiannus	19,978	34.8%	19,842	31.1%	18,629	27.8%
Ple euog	33,020	57.6%	39,326	61.6%	43,586	65.0%
Euogfarnu ar ôl treial	4,246	7.4%	4,552	7.1%	4,781	7.1%
Profwyd yn absenoldeb	117	0.2%	99	0.2%	98	0.1%
Euogfarnau	37,383	65.2%	43,977	68.9%	48,465	72.2%
Cyfanswm Erlyniadau	57,361		63,819		67,094	

Erlyniadau Aflwyddiannus



Mae tabl 4 yn rhoi dadansoddiad manylach o'r rhesymau dros ganlyniadau aflwyddiannus, gan ddangos y gyfran sy'n methu oherwydd materion yn ymwneud â dioddefwyr (gan gynnwys dioddefwyr yn tynnu cyhuddiadau yn ôl ac achosion ble bydd dioddefwr yn methu mynychu gwrandawriad llys), y rhai sy'n arwain at rwymo, a'r rhai ble cafodd y diffynnydd rybudd. Mae'r ail adolygiad o'r Polisi a Chyfarwyddyd ar erlyn achosion o drais domestig yn awgrymu ffyrdd y gall achosion fynd ymlaen yn absenoldeb y dioddefwr neu ble nad yw dioddefwr bellach yn cefnogi'r erlyniad. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio darpariaethau 'ail-law', tapiau 999 neu dystiolaeth ategol arall; ac o dan rai amgylchiadau, gwneud cais i'r llys i wysio tyst er mwyn gorfodi presenoldeb mewn gwrandawriad treial.

O fewn y prif resymau hyn, arhosodd dioddefwyr yn tynnu cyhuddiadau yn ôl i fod y categori unigol mwyaf; fodd bynnag mae'r gyfradd wedi disgyn o uchafbwynt o 22% i 18.6% yn 2008 – 09. Ond cafwyd cynnydd sylweddol yn y gyfran a fethodd oherwydd i ddioddefwr fethu mynychu, o 8% i 12%, ac yn y gyfran ble nad oedd tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi achos yr erlyniad, o 13% i 19%. Gostyngodd y gyfran a fethodd oherwydd prif resymau cyffredinol o 58% i 55% o'r holl ganlyniadau aflwyddiannus, yn bennaf oherwydd y gostyngiad mewn rhwymo o 15% i 5%.

Tabl 4 – Prif Resymau dros Erlyniadau Aflwyddiannus

	2005-06		2006-07		2007-08		2008-09	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Dioddefwr yn Tynnu'n ôl	4,214	21.0%	4,441	22.2%	4,207	21.2%	3,470	18.6%
Dioddefwr Ddim yn Mynychu	1,593	7.9%	1,914	9.6%	2,409	12.1%	2,226	11.9%
Tystiolaeth Dioddefwr ddim yn cefnogi'r achos	2,613	13.0%	3,142	15.7%	3,406	17.2%	3,536	19.0%
Cyfanswm Materion dioddefwyr	8,420	42.0%	9,497	47.5%	10,022	50.5%	9,232	49.6%
Rhybudd	296	1.5%	274	1.4%	234	1.2%	196	1.1%
Rhwymo	2,997	14.9%	1,909	9.6%	1,311	6.6%	881	4.7%
Cyfanswm Prif Resymau	11,713	58.4%	11,680	58.5%	11,567	58.3%	10,309	55.3%
Holl Resymau Eraill	7,585	37.8%	7,609	38.1%	7,503	37.8%	7,723	41.5%
Cwblhau gwaith gweinyddol	765	3.8%	689	3.4%	772	3.9%	597	3.2%
Cyfanswm	20,063		19,978		19,842		18,629	

Mae tabl a siart 5 yn dangos nifer a chyfran y materion sy'n ymwneud â dioddefwyr mewn perthynas â phob canlyniad. Er bod cynnydd yn nifer a chyfran y rhai a fu'n aflwyddiannus oherwydd anawsterau dioddefwyr, o 8,420 i 2005 – 06 i 9,232 yn 2008 – 09, bu cwmp bach o ran cyfran, o 17% i lai na 14%. Cwmpodd cyfanswm y canlyniadau aflwyddiannus o 40% yn 2005 – 06 i 28% yn 2008 - 09.

Tabl 5 – Cymhariaeth o Brif Materion dioddefwyr**Materion dioddefwyr mewn perthynas â'r holl ganlyniadau****% Materion dioddefwyr**

	2005-06		2006-07		2007-08		2008-09	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
<i>Cyfanswm Aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr</i>	8,420	16.9%	9,497	16.6%	10,022	15.7%	9,232	13.8%
Cyfanswm Aflwyddiannus	20,063	40.3%	19,978	34.8%	19,842	31.1%	18,629	27.8%
Cyfanswm Euogfarnau	29,719	59.7%	37,383	65.2%	43,977	68.9%	48,465	72.2%
Cyfanswm Erlyniadau	49,782		57,361		63,819		67,094	

Categori'r prif drosedd

Y categori mwyaf niferus oedd troseddau yn erbyn yr unigolyn, a oedd yn cynrychioli 69% o erlyniadau trosedd trais domestig yn 2008-09. Roedd difrod troseddol a threfn gyhoeddus yn gyfrifol am 13% a 7% pellach yn ôl eu trefn. Wrth rannu'r categorïau yn ôl rhyw, gwelir bod patrwm tebyg wedi'i gofnodi ar gyfer dynion, gyda 69% yn cael eu categorïddio fel troseddau corfforol, 13% fel difrod troseddol, a 6% fel trefn gyhoeddus. Yr oedd patrwm ychydig yn wahanol ar gyfer menywod, gyda throseddau corfforol ychydig yn is ar 66% a difrod troseddol yr un fath ar 13%, tra'r oedd trefn gyhoeddus ychydig yn uwch ar 10%. Dynion oedd 94% o'r diffynnyddion y nodwyd mai troseddau corfforol oedd eu prif drosedd.


Cydraddoldebau

(i) Diffynnyddion

Rhyw

Mae tabl 6 yn dadansoddi rhyw'r diffynnyddion. Arhosodd cyfran y diffynnyddion oedd yn ddynion ar 94% fel yn 2007 - 08.

Tabl 6 – Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Rhyw'r Diffynnydd



	2005-06		2006-07		2007-08		2008-09	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Menywod	2,579	5.2%	2,956	5.2%	3,770	5.9%	4,266	6.4%
Dynion	47,198	94.8%	54,396	94.8%	60,037	94.1%	62,805	93.6%
Anhysbys	5	0.0%	9	0.0%	12	0.0%	23	0.0%
Cyfanswm	49,782		57,361		63,819		67,094	

Ethnigrwydd


Bydd y CPS yn casglu data ethnigrwydd am ddiffynyddion yn unol â diffiniadau cytûn y System Cyfiawnder Troseddol ar gyfer yr 16+1 categori ethnig. Yn 2008 – 09, dynodwyd ychydig o dan 78% o ddiffynyddion trosedd trais domestig yn perthyn i'r categori Prydeinig Gwyn, a chafodd 81% eu categorioeddio'n Wyn. Nodwyd bod ychydig dan 5% o ddiffynyddion yn Asiaidd, a 5% pellach yn Ddu. Ni nododd 3% o ddiffynyddion ethnigrwydd ar arestiad ac mewn 4% pellach o achosion, ni chafodd y cofnod o ethnigrwydd ei gwblhau.

(ii) Dioddefwyr

Rhyw

Mae tabl 7 yn dadansoddi rhyw'r dioddefwyr. Daw'r data dioddefwyr o'r System Reoli Tystion, a dim ond ers Ebrill 2006 mae ar gael. Er bod cofnodi'r data hwn wedi gwella yn y flwyddyn flaenorol, o 56% o ddioddefwr rhyw heb gael eu cofnodi yn 2007 - 08 i 35% yn 2008 - 09, mae ei gyflawnrwydd a chywirdeb yn dal i gael ei ddatblygu. O blith y dioddefwyr hynny y nodwyd eu rhyw, y gyfran uchaf oedd menywod, sef 85% yn 2006 - 07 ac yn 2008 - 09.

Tabl 7 – Rhyw Dioddefwyr



	2006-07		2007-08		2008-09	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Menywod	7,477	29.3%	18,461	37.5%	33,073	55.3%
Dynion	1,341	5.3%	3,078	6.3%	5,841	9.8%
Anhysbys	16,693	65.4%	27,695	56.3%	20,921	35.0%
Cyfanswm	25,511		49,234		59,835	

Gwasanaethau Trosedd Trais Domestig

Casglwyd y wybodaeth hon ers Ebrill 2007, ac mae'n parhau i gael ei datblygu hefyd. O blith y dioddefwyr a thystion hynny a atgyfeiriwyd at wasanaethau cefnogaeth neu asiantaeth arbenigol, cofnodwyd bod llai nag 1% wedi'u cyfeirio at 'asiantaeth arbenigol'. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn dal i gael ei datblygu. Fodd bynnag, cyfeiriwyd 76% at naill ai asiantaeth cefnogi dioddefwyr neu dystion, o'i gymharu â 22% yn 2007 – 08, tra'r oedd 23% yn destun i atgyfeiriad 'arall' o'i gymharu â 77% yn y flwyddyn flaenorol.

Treisio

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, cyhoeddodd y CPS fersiwn adolygedig o'i Bolisi Erlyn Achosion Treisio ym Mawrth 2009, wedi'i anelu'n arbennig at rheiny sy'n cefnogi dioddefwyr treisio, boed yn broffesiynol neu'n bersonol. Mae'r fersiwn adolygedig yn adlewyrchu newidiadau i'r gyfraith, gweithdrefnau, a datblygiadau eraill ac yn cynnwys:

- Derbynioldeb tystiolaeth wedi ei recordio'n weledol gan ddioddefwyr sy'n oedolion (Adran 27 o'r Deddf Cyfiawnder Ieuencid a Thystiolaeth Droseddol 1999);
- Mentrau newydd yn ymwneud â dioddefwyr a thystion;
- Adran well ar fythau a stereoteipiau treisio; a
- Rhestr termau cyfreithiol.

Mae hyfforddiant gorfodol ar gyfer yr holl erlynyddion treisio arbenigol, a gyflwynwyd yn 2008, yn parhau i gael ei gyflenwi gan Ardaloedd CPS. Mae'r hyfforddiant yn pwysleisio pwysigrwydd adeiladu'n rhagweithiol yr achosion cryfaf bosib, a chanolbwyntio ar y dioddefwyr. Mae'n cynnwys sesiynau gan bartneriaid allanol ar effeithiau treisio gan gynnwys syndrom trawma treisio a natur a helaethder archwiliad meddygol fforensig. Ategir hynny gan raglen e-ddysgu yn seiliedig ar y Llawlyfr Treisio CPS.

Erbyn hyn, mae treisio'n cael ei fonitro fel rhan o'r dangosydd TEM chwarterol. Mae asesiadau ansoddol manylach gan Gydlynwyr TEM/Treisio lleol yn cael eu darparu i'r Uned Gyflenwi Erlyniadau Treisio genedlaethol i helpu hysbysu eu hasesiadau Adolygiadau Perfformiad Ardal. Mae'n bwysig nodi bod canlyniadau llwyddiannus i'r CPS yn cynnwys achosion y cafodd eu cyhuddo ar y dechrau fel treisio ond ble y cafwyd euogfarnau am drosedd arall neu lai. Ni chyflawnwyd y targed ar gyfer gostwng canlyniadau aflwyddiannus o fymryn, o gyhuddiad i euogfarn (41%), gan ei fod yn 42% yn 2008 - 09. Y targed newydd ar gyfer 2009 -10 yw 39%, gyda phwyslais ychwanegol ar gynyddu'r nifer o achosion a erlynir yn ogystal â gwella athreuliad.

Yn 2008 - 09 cynyddodd cyhuddo i 39%. Fodd bynnag mae hyn yn parhau ar lefel isel ac yn dangos yr angen am waith pellach gyda'r heddlu i ddynodi ffyrdd o wella'r posibilrwydd o gyhuddo ble fo'n briodol. Parhaodd y gyfran o ddynion a erlynwyd yr un fath o 2006 - 2009 ar 99%. Cynyddodd y gyfran o ddioddefwyr benywaidd ychydig i 88%. Roedd 65% o ddiffynnyddion yn Wyn, 8% yn Asiaidd a 12% yn Ddu, gyda 5% heb nodi ethnigrwydd a 5% pellach heb eu cofnodi.

Croesawyd y cynnydd i 35% mewn pledio'n euog, ond mae'n dangos yr anawsterau o sicrhau ple euog o gofio difrifoldeb y cyhuddiad a'r ddedfryd debygol. Fodd bynnag, cafodd mwy o achosion eu heuogfarnu ar ôl treial, ar ran nifer a chyfran. Yn gyfrannol, terfynwyd llai o achosion, yn cynnwys y rheiny ble nad oedd tystiolaeth yn cael ei chynnig. Roedd materion dioddefwyr yn cyfrif am ychydig o achosion aflwyddiannus o ran nifer a chyfran (7%). Materion dioddefwyr oedd y rheswm am lai nag un mewn pump o ganlyniadau aflwyddiannus. Yn debyg i drais domestig, mae'r patrymau wedi newid mewn perthynas â materion dioddefwyr. Yn gyfrannol cafodd llai o achosion eu cofnodi fel rhai aflwyddiannus oherwydd bod y dioddefwr wedi tynnu'n ôl. Yn gyfrannol roedd a wnelo hyn fwy â diffyg presenoldeb y dioddefwr (er yn fach o ran niferoedd), ac roedd y nifer a'r gyfran fwyaf i'w briodoli i dystiolaeth y dioddefwyr ddim yn cefnogi'r achos. Mae hyn yn dangos yr angen am gymorth i ddioddefwyr, yn enwedig drwy Gynghorwyr Annibynnol ar Ymosodiadau Rhywiol (ISVAs). Gallai gwaith gyda'r Gwasanaeth Gofal Tystion i wella atgyfeiriadau helpu yn yr achos hwn. Roedd y nifer a'r gyfran fwyaf o ganlyniadau aflwyddiannus oherwydd rhyddfarnau rheithgor, ar ychydig o dan 40%. Mae hyn yn dangos yr angen am fwy o waith aml-asiantaeth gyda phartneriaid i ymdrin ag ymwybyddiaeth gyhoeddus a herio mythau a stereoteipiau o fewn a thu allan i'r System Cyfiawnder Troseddol.

Fel arfer, profi absenoldeb cydsyniad yw'r rhan fwyaf cymhleth o erlyniad treisio, a'r rheswm mwyaf cyffredin dros i achos treisio fethu. Gall y gallu i gydsynio ar amser y drosedd hefyd fod yn fater pwysig, yn enwedig ble fo'r achwynydd wedi meddwi'n wirfoddol. Mae erlynyddion arbenigol treisio y CPS yn cael eu hyfforddi i adnabod mythau a stereoteipiau¹¹ a'u herio ar bob cyfle.

Cafodd Canllaw ar y cyd rhwng ACPO/CPS ar Ymchwilio ac Erlyn Treisio ei gylchredeg yn 2009, y cyntaf i gael ei gyd-ysgrifennu gan yr Asiantaeth Gwella Heddlu Cenedlaethol a'r CPS. I nodi lansiad y canllaw ar y cyd, cynhaliwyd chwech o weithdai heddlu/ CPS rhanbarthol i atgyfnerthu'r angen i roi polisïau ac arfer da CPS ar waith yn gyson, ac i sicrhau bod y cydsyniad o gydweithio wedi'i ddeall a'i weithredu'n llawn.

Roedd lansiad y Canllaw yn cyd-fynd â chyflwyniad menter heddlu/ CPS arall sy'n cynnwys ymweliadau ar y cyd gan dîm o'r Uned Gyflenwi Erlyniadau Treisio'r CPS a Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu i Ardaloedd CPS a heddluoedd. Yn dilyn derbyn hunanasesiadau cynhwysfawr gan yr Ardal CPS a'r heddlu lleol, bydd y tîm yn cynnal cyfweiliadau gyda'r personél CPS a heddlu cyfrifol am ymdrin ag achosion treisio i ddynodi arfer da a chael gwared â rhwystrau, er mwyn sicrhau perfformiad o ansawdd uchel cyson. Bydd y tîm yn darparu adroddiadau ysgrifenedig sy'n rhannu arfer da ac yn darparu gweithredoedd a argymhellir ar gyfer gwelliant. Bydd y cynnydd dilynol yn cael ei fonitro'n erbyn cynllun gweithredu heddlu lleol/ CPS.

Ym Mehefin 2009 ysgrifennodd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus at holl Brif Erlynyddion y Goron yn pwysleisio'r pwysigrwydd o gymryd arweinyddiaeth bendant i yrru perfformiad lleol i fyny, mewn perthynas ag achosion treisio. Cyhoeddodd hefyd bod hyfforddiant arbenigol yn cael ei gyflwyno i holl Brif Erlynyddion y Goron ar erlyn treisio, yn cynnwys sesiwn ar fythau a stereoteipiau ac effeithiau seicolegol trawma rhywiol ar ddioddefwyr. Rhoddodd gyfarwyddyd y dylai erlynyddion ystyried yn rhagweithiol wrth adolygu achosion cynnal cyfweiliad tyst cyn-treial a chofnodi rhesymau am eu penderfyniadau.

Bydd pecyn i'r wasg ar dreisio yn cael ei ddatblygu yn ystod 2009-10.

Mae'r CPS yn cefnogi menter yr Adran Iechyd (DH) a Swyddfa Gartref i ddatblygu Canolfan Atgyfeirio Ymosodiad Rhywiol (SARC) ym mhob heddlu a chyflwyno safonau gofynnol ar gyfer cyfleusterau newydd a phresennol. Mae hyn yn cynnwys arbenigwyr CPS yn ymweld ag ardaloedd fel rhan o Dîm Cymorth Cenedlaethol o arbenigwyr traws-asiantaeth, er mwyn rhoi cyngor a chyfarwyddyd. Ar hyn o bryd mae 29 SARC, gyda 16 pellach yn cael eu datblygu.

Treisio ieuenctid:

Mae nifer o euogfarnau treisio heriol wedi'u cyflawni yn cynnwys diffynyddion ieuenctid. Cafodd bachgen dwy ar bymtheg ei euogfarnu ar ôl ail-dreial a'i ddedfrydu i wyth mlynedd o garchar am ymosod ar ferch bymtheg oed.

Mewn ail achos, cafodd dau o fechgyn dwy ar bymtheg oed naw mlynedd yr un am dreisio merch yn ei harddegau. Cafodd y diffynyddion dreial ar wahân – mewn dau lys. Cymeradwyodd barnwr yn y treial ddewrder y ddioddefwraig wrth iddi orfod rhoi tystiolaeth ddwywaith.

¹¹ Mae'r mythau a stereoteipiau a gafodd eu herio yn y canllaw a hyfforddiant treisio'n cynnwys: mae treisio'n digwydd rhwng dieithriaid ar lwybrau tywyll; mae dioddefwyr yn cymell treisio drwy'r modd y maent yn gwisgo neu'n ymddwyn; mae dioddefwyr sy'n yfed alcohol neu'n defnyddio cyffuriau'n gofyn am gael eu treisio; mae treisio'n drosedd dan angerdd; os na wnaethant sgrechian, ymladd neu gael eu hanafu, nid oedd yn dreisio; gallwch ddweud os ydynt 'wirioneddol' wedi'u treisio drwy'r ffordd maent yn ymddwyn; mae dioddefwyr yn cyhuddo treisio pan fyddant yn difaru cael rhyw neu eisïau dial; dim ond dynion hoyw sy'n cael eu treisio/dim ond dynion hoyw sy'n treisio dynion; ac ni ellir treisio puteiniaid.

Achos Trais Domestig/Treisio

Ar y dechrau, roedd yr achos hwn yn cynnwys honiadau o drais domestig gan ddyn ar ei gariad dwy ar bymtheg oed, yn cynnwys ymosodiad, difrod troseddol a cham-garcharu. Yn fuan ar ôl adrodd hyn i'r heddlu dywedodd y ddioddefwraig nad oedd eisiau parhau a'i bod eisiau tynnu'r honiadau'n ôl. O fewn dyddiau i hyn, treisiodd y diffynnydd hi. Adroddodd hyn i'r heddlu, a chafodd y diffynnydd ei gyhuddo o droseddau amrywiol.

Yn y cyfnod cyn y treial, roedd yn ymddangos yn debygol y byddai'r ddioddefwraig yn tynnu'n ôl gan fod yr heddlu'n cael anhawster cynnal cyswllt â hi, ond mynychodd yr achos a rhoi tystiolaeth tu ôl i lenni. Ceisiodd yr amddiffyniad ddefnyddio'r ffaith bod y ddioddefwraig wedi cynnal cyswllt â'r diffynnydd ar ôl y troseddau cyntaf a thra'r oedd mewn cystodaeth. Er gwaethaf hyn, dychwelodd y rheithgor reithfarn euog a chafodd y diffynnydd ddedfryd o garchar am chwe blynedd.

Treisio gan sawl troseddwr

Cafodd naw o ddynion ifanc eu canfod yn euog o dreisio, herwgipio a cham-garcharu merch bedair ar ddeg oed.

Cafodd dau o'r diffynnyddion ddedfrydau amhenderfynadwy er mwyn amddiffyn y cyhoedd. Cafodd diffynnydd arall ddedfryd o naw mlynedd. Cafodd pedwaredd ddedfryd o wyth mlynedd mewn Sefydliad Troseddwyr Ifanc a thri diffynnydd yn cael chwe blynedd. Cafodd dau arall eu heuogfarnu am dreisio, ond ar sail eu bod wedi "cynorthwyo ac annog." Cafodd bachgen pedair ar ddeg oed ei orchymyn i gael ei gadw mewn llety diogel am ddwy flynedd a phum mis oherwydd ei oed, tra cafodd y bachgen un ar bymtheg ei ddedfrydu i dair blynedd a naw mis mewn Sefydliad Troseddwyr Ifanc.

Clywodd y llys sut yr oedd y dioddefwraig ar ei ffordd adref pan welodd y sawl oedd dan amheuaeth 'A' gyda gr p o ddynion. Dadleuodd â nhw ynghylch anghydfod oedd eisoes yn bodoli, a dywedodd wrth gariad y sawl oedd dan amheuaeth na ddylai fod gydag ef, a chymerodd un o'r gr p ei ffôn symudol. Aethpwyd â hi i nifer o dai ble y cafodd ei threisio gan y naw bachgen, tra'r oeddynt yn recordio hyn ar ei ffôn symudol.

Roedd yn ymddangos mai'r cymhelliad dros yr ymosodiad yma oedd bod y ddioddefwraig wedi 'amharchu' y sawl oedd dan amheuaeth 'A' cyn hynny. Roedd y diffynnyddion eraill yn aelodau o gr p lleol ac yn dilyn ei arweiniad. Gweithiodd yr heddlu'n dda o fewn o gymuned i gasglu tystiolaeth er mwyn sicrhau erlyniad llwyddiannus am y troseddau hyn.

Treisio merch ifanc ag anawsterau dysgu gan sawl troseddwr - apelio yn erbyn dedfryd rhy drugarog.

Roedd merch ifanc ag anawsterau dysgu wedi dod yn gyfeillion â dyn ifanc a chytunodd i fynd gydag ef, gyda'r bwriad o gael cyfathrach rywiol gydag ef yn unig.

Unwaith yr aethpwyd â hi i dŷ gwag, bu'n destun i dreisio lluosog gan amryw o ddynion, tra'r oedd eraill yn gwylio a'i chadw'n garcharor. Ar ôl y digwyddiad cododd un bachgen ifanc bwced o'r hyn a dybiai i fod yn ddŵr a'i daflu drosti. Roedd y fwced yn cynnwys soda costig, a llosgwyd ei chroen.

Cyhuddwyd deg o fechgyn ifanc gyda phedwar euogfarn.

Cafodd y tri phrif droseddwr ddedfrydau o garchar a chyfeiriwyd yr achos i'r Twrnai Cyffredinol ar gyfer ystyriaeth o ddedfrydau rhy drugarog. Bu'r apel yn llwyddiannus, gyda'r dedfrydau'n cael eu cynyddu. Cafodd dedfryd y prif ddiffynnydd ei chynyddu o naw mlynedd i gyfanswm o bedair blynedd ar ddeg am dreisio ac achosi niwed corfforol difrifol bwriadus.


Prif Ganfyddiadau Trosedd Treisio

Ers Ebrill 2008 mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi adrodd ynghylch erlyn troseddau treisio fel rhan o'r strategaeth Trais yn erbyn Menywod (TEM) yn ogystal â mesur perfformiad o fewn y broses adolygu perfformiad.

Cyhuddo

Cynyddodd nifer yr achosion ble penderfynodd y CPS y dylid cyhuddo diffynnydd o 29.8% o achosion treisio a atgyfeiriwyd i'r Gwasanaeth yn 2006-07 i 38.9% yn 2008-09, yn debyg i 2007 - 08. Y mae gwaith pellach ar y gweill i wella'r cyfraddau cyhuddo.

Tabl 1 – Penderfyniadau Cyn Cyhuddo



Holl Ddiffynnyddion	2006-07		2007-08		2008-09	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Cyhuddwyd	1,963	29.8%	2,220	38.8%	2,565	38.9%
Cais am dystiolaeth bellach	110	1.7%	55	1.0%	43	0.7%
Dim erlyniad	3,559	54.0%	3,025	52.9%	3,511	53.2%
Holl benderfyniadau eraill	958	14.5%	422	7.4%	478	7.2%
Cyfanswm	6,590		5,722		6,597	


Rhoddwyd Cyhuddo Statudol ar waith yn llawn ar 3 Ebrill 2006

* Mae'r ffigyrau a gynhwyswyd yn adroddiad 2007 – 08 yn ac eithrio'r achosion hynny ble nad oedd canlyniad y penderfyniad wedi ei gofnodi'n llawn yng nghofnodion y CPS. Er mwyn cyflawnrwydd, nid yw'r canlyniadau hyn wedi'u hychwanegu at yr adroddiad presennol. Mae'r ffigyrau uchod felly'n wahanol i'r rhai yn adroddiad y llynedd

Euogfarnau



Yn y tair blynedd yn diweddu mis Mawrth 2009, erlynwyd dros 10,200 o ddiffynyddion am droseddau yn ymwneud â threisio. Mae tabl a siart 2 isod sy'n dadansoddi erlyniadau dros y cyfnod o dair blynedd yn dangos bod euogfarnau wedi codi o 55% yn 2006 – 07 i 58% yn 2007 – 08, ac wedi aros ar y lefel honno'n 2008 - 09. Mae'r cofnodion CPS yn cynnwys canlyniad yr holl achosion a gyhuddwyd. Mae canlyniadau llwyddiannus yn cynnwys achosion a gyhuddwyd yn gyntaf fel treisio, ond ble cafwyd euogfarn am drosedd arall neu lai.

Tabl 2 – Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Canlyniad



	2006-07		2007-08		2008-09	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Euogfarnau	1,778	54.5%	2,021	57.7%	2,018	57.7%
Aflwyddiannus	1,486	45.5%	1,482	42.3%	1,477	42.3%
Cyfanswm	3,264		3,503		3,495	

Mae'r tabl a siartiau yn rhoi dadansoddiad manwl o ganlyniadau erlyn ar gyfer troseddau treisio o 2006 – 07 i 2008 – 09. Cododd pledio'n euog o 33% i 35%, yr un fath â 2007 – 08 a 2008 - 09. Bu gostyngiad yn yr erlyniadau a ollyngwyd gan y CPS, gan gynnwys terfynu achosion ac achosion ble na chynigiwyd tystiolaeth, o 24% i lai na 23%.


Tabl 3 – Canlyniadau Erlyn**Euogfarnau****Canlyniadau Aflwyddiannus**

	2006-07		2007-08		2008-09	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Cwblhau gwaith gweinyddol	29	0.9%	37	1.1%	45	1.3%
Achosion traddodi a ryddhawyd	7	0.2%	7	0.3%	6	0.3%
Erlyniadau a Ollyngwyd <i>gan gynnwys dirwyn achosion i ben, ni chynigiwyd tystiolaeth a thynnu'n ôl</i>	780	23.9%	795	22.7%	787	22.5%
<i>o'u plith – ni chynigiwyd tystiolaeth</i>	486	14.9%	494	14.1%	474	13.6%
Gwrthodwyd ar ôl treial llawn	7	0.2%	5	0.1%	0	0.0%
Dim achos i'w ateb	1	0.0%	0	0.0%	0	0.0%
Barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu	84	2.6%	99	2.8%	64	1.8%
Rhyddfarnu gan reithgor	578	17.7%	539	15.4%	575	16.5%
Canlyniadau Aflwyddiannus	1,486	45.5%	1,482	42.3%	1,477	42.3%
Ple euog	1,077	33.0%	1,235	35.3%	1,230	35.2%
Euogfarnu ar ôl treial	701	21.5%	786	22.4%	788	22.5%
Profwyd yn absenoldeb	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%
Euogfarnau	1,778	54.5%	2,021	57.7%	2,018	57.7%
Cyfanswm Erlyniadau	3,264		3,503		3,495	

Erlyniadau Aflwyddiannus



Mae tabl 4 yn rhoi dadansoddiad manylach o'r rhesymau dros ganlyniadau aflwyddiannus, yn dangos y gyfran sy'n methu oherwydd: materion gyda dioddefwyr (gan gynnwys dioddefwyr yn tynnu cyhuddiadau yn ôl ac achosion ble bo dioddefwr wedi methu mynychu gwrandawriad llys), y rhai sy'n arwain at rwymo, a'r rhai ble cafodd y diffynnydd rybudd); gwrthdaro mewn tystiolaeth neu amgylchiadau ble'r oedd y tyst yn annibynadwy; absenoldeb elfen gyfreithiol hanfodol; yr effaith ar iechyd meddwl y dioddefwr neu dyst; a rhyddfarnau yn dilyn treial.

O fewn y prif resymau hyn, rhyddfarnau ar ôl treial oedd yn parhau i fod y categori mwyaf, yn amrywio ychydig dros y cyfnod tair blynedd, o 38.4% i 38.1%, gyda'r mwyafrif yn rhyddfarnau rheithgor yn hytrach na rhai a gyfeiriwyd gan y barnwr. Gostyngodd Materion Allweddol dioddefwyr ychydig o 19.2% o'r holl ganlyniadau aflwyddiannus i 17.5% yn 2008 - 09. O fewn materion dioddefwyr, roedd llai oherwydd dioddefwyr yn tynnu'n ôl nag mewn blyneddoddd cynt, a methodd mwy o achosion oherwydd nad oedd tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi'r achos erlyn.

Tabl 4 – Prif Resymau dros Eryniadau Aflwyddiannus

	2006-07		2007-08		2008-09	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Dioddefwr yn Tynnu'n ôl	162	10.9%	128	8.6%	111	7.5%
Dioddefwr Ddim yn Mynychu	15	1.0%	9	0.6%	23	1.6%
Tystiolaeth Dioddefwr ddim yn cefnogi'r achos	109	7.3%	131	8.8%	124	8.4%
Cyfanswm Materion dioddefwyr	286	19.2%	268	18.1%	258	17.5%
Tystiolaeth yn Gwrthdaro	134	9.0%	159	10.7%	164	11.1%
Elfen Gyfreithiol Hanfodol ar Goll	128	8.6%	131	8.8%	141	9.5%
Tyst Annibynadwy	199	13.4%	197	13.3%	178	12.1%
Effaith ar iechyd meddwl Dioddefwr/Tyst	19	1.3%	14	0.9%	18	1.2%
Rhyddfarnau	570	38.4%	530	35.8%	562	38.1%
Cyfanswm Prif Resymau	1,336	89.9%	1,299	87.7%	1,321	89.4%
Holl Resymau Eraill	121	8.1%	146	9.9%	111	7.5%
Cwblhau gwaith gweinyddol	29	2.0%	37	2.5%	45	3.0%
Cyfanswm	1,486		1,482		1,477	

Mae tabl a siart 5 yn dangos nifer a chyfran y materion sy'n ymwneud â dioddefwyr mewn perthynas â phob canlyniad. Bu cwmp bach yn niferoedd a chyfran y rhai a fu'n aflwyddiannus oherwydd anawsterau dioddefwyr o 286 (8.8%) yn 2006 – 07 i 258 (7.4%) yn 2008 – 09. Cwmpodd cyfanswm y canlyniadau aflwyddiannus o dros 45% yn 2006 – 07 i 42% yn 2008 – 09, yn methu'r targed blyneddol o 41% o ychydig.

Tabl 5 – Cymhariaeth o Brif Faterion Dioddefwyr**Materion dioddefwyr mewn perthynas â'r holl ganlyniadau****% Materion dioddefwyr**

	2006-07		2007-08		2008-09	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
<i>Cyfanswm Aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr</i>	286	8.8%	268	7.7%	258	7.4%
Cyfanswm Aflwyddiannus	1,486	45.5%	1,482	42.3%	1,477	42.3%
Cyfanswm Euogfarnau	1,778	54.5%	2,021	57.7%	2,018	57.7%
Cyfanswm Erlyniadau	3,264		3,503		3,495	


Cydraddoldebau

(i) Diffynyddion

Rhyw

Mae tabl 6 yn dadansoddi rhyw diffynyddion a dioddefwyr yn ôl eu trefn. Parhaodd cyfran y diffynyddion oedd yn ddynion yr un fath ar 99% yn 2006 – 07, 2007 - 08 a 2008 - 09.

Table 6 – Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Rhyw'r Diffynnydd



	2006-07		2007-08		2008-09	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Menywod	35	1.1%	38	1.1%	43	1.2%
Dynion	3,227	98.9%	3,465	98.9%	3,451	98.5%
Anhysbys	2	0.1%	0	0.0%	1	0.0%
Cyfanswm	3,264		3,503		3,495	


Ethnigrwydd

Mae data ethnigrwydd data ar ddiffynyddion yn cael ei gasglu gan y CPS yn unol â'r diffiniadau System Cyfiawnder Troseddol cytûn ar gyfer y categorïau ethnig 16+1. Yn 2008 - 09, nodwyd bod 60% o ddiffynyddion trosedd treisio yn perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig, gyda 65% yn cael eu categorioeddio Wyn, yn debyg i'r flwyddyn flaenorol. Nodwyd bod 8% ddiffynyddion yn Asiaidd, a 12% pellach yn Ddu. Ni wnaeth 5% o ddiffynyddion ddatgan eu hethnigrwydd ar arestiad ac mewn 5% o achosion pellach ni chafodd y cofnod o ethnigrwydd ei gwblhau.

(ii) Dioddefwyr

Rhyw

Mae tabl 7 yn dadansoddi rhyw'r dioddefwyr. Daw'r data am ddioddefwyr o'r System Reoli Tystion, a dim ond ers Ebrill 2006 mae ar gael. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn dal i gael eu datblygu, gyda rhyw 52% o ddioddefwyr heb ei gofnodi. O blith y dioddefwyr hynny y nodwyd eu rhyw, y gyfran uchaf oedd menywod, yn codi o 87% yn 2007 – 08 i 88% yn 2008 - 09.

Tabl 7 – Rhyw Dioddefwyr

	2006-07		2007-08		2008-09	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Menywod	415	28.3%	1,053	34.6%	1,632	42.4%
Dynion	64	4.4%	161	5.3%	223	5.8%
Anhysbys	989	67.4%	1,829	60.1%	1,993	51.8%
Cyfanswm	1,468		3,043		3,848	

Troseddau Rhywiol

Erbyn hyn, mae troseddau rhywiol, heblaw am dreisio, yn cael eu monitro fel rhan o'r dangosydd TEM chwarterol. Aethpwyd tu draw i'r targed ar gyfer gostwng canlyniadau aflwyddiannus am achosion a gyhuddir (28%) ar 25% yn 2008 - 09. Y targed newydd ar gyfer 2009 - 10 yw 23%.

Nid yw data ar gyhuddo a dioddefwyr ar gael ar gyfer troseddau rhywiol fel yr eglurir yn y darn isod.

Arhosodd y gyfran o ddiffynnyddion gwrywaidd yr un fath o 2006 - 2009 – ar 95%. Roedd 74% o ddiffynnyddion yn Wyn, 7% yn Asiaidd a 6% yn Ddu, gyda 4% heb nodi ethnigrwydd ac mewn 6% o achosion pellach ni chwblhawyd y cofnod ethnigrwydd.

Roedd y cynnydd mewn pledio'n euog i 62% yn dangos gostyngiad mewn amser o gyhuddo i ganlyniad, gyda chyfran is angen treial. Cafodd llai o achosion eu terfynu, o ran nifer a chyfran, yn cynnwys y rheiny ble nad oedd tystiolaeth yn cael ei chynnig. Dim ond am ychydig o achosion aflwyddiannus yr oedd materion dioddefwyr yn cyfrif yn ôl nifer a chyfran (3%). O'r holl achosion aflwyddiannus, dim ond am 12% o'r rhesymau yr oedd materion dioddefwyr yn cyfrif. Roedd y gyfran fwyaf o ganlyniadau aflwyddiannus oherwydd rhyddfarnau rheithgor, sef ychydig llai na 34% o'r canlyniadau aflwyddiannus. Ac o safbwynt treisio, gall hyn ddangos yr angen am fwy o waith aml-asiantaeth gyda phartneriaid, er mwyn ymdrin ag ymwybyddiaeth gyhoeddus a herio mythau a stereoteipiau o fewn a thu allan i'r System Cyfiawnder Troseddol.

Cam-drin rhywiol ac anabledau dysgu – defnydd o ganolwr

Cafodd dyn ei euogfarnu am gam-drin rhywiol ar bedwar brawd ar ôl iddynt roi tystiolaeth mewn treial gyda chymorth canolwr. Cafodd y diffynnydd ei ddedfrydu i 15 mlynedd o garchar, dedfryd amhenderfynadwy er mwyn amddiffyn y cyhoedd a gorchymyn atal troseddau rhywiol ar ôl cael ei ganfod yn euog o 19 cyfrif, yn cynnwys chwech o *'weithgaredd rhywiol gydag unigolyn ag anhwylder meddwl a oedd yn rhwystro dewis'*, ac un o dreisio.

Roedd y dioddefwyr rhwng saith ac 18 oed. Roedd gan dri ohonynt anabledau dysgu difrifol tra'r oedd y pedwerydd yn dioddef o Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd. Yn ystod y treial rhoesant dystiolaeth drwy gyswllt fideo, gyda'r canolwr yn eistedd â nhw mewn ystafell ar wahân yn y llys. Dywedodd y cyfreithiwr adolygu: "Adeiladodd y canolwr berthynas dda gydag aelodau'r teulu. Roeddem yn sicrhau bod yr adfocad a oedd yn erlyn yn cyflwyno'i hun yn bersonol i bob un o'r tystion cyn iddynt roi tystiolaeth. Cytunodd y barnwr a'r bargyfreithwyr amddiffyn ar system ar gyfer sut y byddant yn ymyrryd yn ystod y cwestiynu."

Prif Ganfyddiadau Troseddau Rhywiol ac eithrio Treisio

Ers Ebrill 2008 mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi adrodd ar erlyniad troseddau rhywiol (ac eithrio troseddau treisio) fel rhan o'r strategaeth Trais yn erbyn Menywod (TEM), yn ogystal â mesur perfformiad o fewn y broses adolygu perfformiad.


Cyhuddo

Nid yw cofnodion y CPS yn cynnwys unrhyw arwydd o benderfyniadau cyn cyhuddo ynghylch troseddau rhywiol, gan mai dim ond ar ôl gorffen yr achos erlyn mae'r prif gategori trosedd yn cael ei ddyrannu i achosion.

Euogfarnau

Yn y tair blynedd yn diweddu Mawrth 2009, cafodd dros 24,300 o ddiffynyddion eu herlyn am droseddau'n cynnwys troseddau rhywiol heblaw treisio. Mae tabl a siart 1 isod yn dangos dadansoddiad o erlyniadau dros y cyfnod o dair blynedd, yn dangos bod euogfarnau wedi codi o 68% yn 2006 – 07 i 75% yn 2008 – 09.

Tabl 1 – Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Canlyniad




	2006-07		2007-08		2008-09	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Euogfarnau	5,675	68.3%	5,976	73.5%	5,955	75.1%
Aflwyddiannus	2,630	31.7%	2,154	26.5%	1,976	24.9%
Cyfanswm	8,305		8,130		7,934	


Mae'r tabl a siartiau isod yn rhoi dadansoddiad manwl o ganlyniadau erlyn am droseddau rhywiol o 2006 – 07 i 2008 – 09. Cynyddodd pledio'n euog o 53% i 62%, gan gyfrannu at well cyfradd euogfarn o 75% yn 2008 – 09 o'i gymharu â 68% yn 2006 - 07. Gostyngodd nifer yr erlyniadau a ollyngwyd gan y CPS, yn cynnwys terfynu achosion a'r rheiny ble na chynigiwyd tystiolaeth, o 16% i ychydig dros 12%.

Tabl 2 – Canlyniadau Erlyn

Euogfarnau



Canlyniadau Aflwyddiannus




	2006-07		2007-08		2008-09	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Cwblhau gwaith gweinyddol	56	0.7%	49	0.6%	59	0.7%
Achosion traddodi a ryddhawyd	55	0.7%	56	0.7%	46	0.6%
Erlyniadau a Ollyngwyd <i>gan gynnwys dirwyn achosion i ben, ni chynigiwyd tystiolaeth a thynnu'n ôl</i>	1,339	16.1%	1,140	14.0%	985	12.4%
<i>o'u plith – ni chynigiwyd tystiolaeth</i>	674	8.1%	636	7.8%	551	6.9%
Gwrthodwyd ar ôl treial llawn	223	2.7%	195	2.4%	148	1.9%
Dim achos i'w ateb	38	0.5%	13	0.2%	15	0.2%
Barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu	104	1.3%	70	0.9%	63	0.8%
Rhyddfarnu gan reithgor	815	9.8%	631	7.8%	663	8.4%
Canlyniadau Aflwyddiannus	2,630	31.7%	2,154	26.5%	1,979	24.9%
Ple euog	4,398	53.0%	4,746	58.4%	4,909	61.9%
Euogfarnu ar ôl treial	1,262	15.2%	1,210	14.9%	1,036	3.1%
Profwyd yn absenoldeb	15	0.2%	20	0.2%	10	0.1%
Euogfarnau	5,675	68.3%	5,976	73.5%	5,955	75.1%
Cyfanswm Erlyniadau	8,305		8,130		7,934	

Erlyniadau Aflwyddiannus



Mae Tabl 3 yn rhoi dadansoddiad mwy manwl o'r rhesymau dros ganlyniadau aflwyddiannus, yn dangos y gyfran sy'n methu oherwydd: materion dioddefwyr (yn cynnwys dioddefwr yn tynnu'n ôl ac achosion ble bo dioddefwr wedi methu â mynychu gwrandawriad llys); gwrthdaro tystiolaeth, neu pan fo tyst yn annibynadwy; diffyg presenoldeb elfen gyfreithiol hanfodol; effaith iechyd meddwl dioddefwr neu dyst; a rhyddfarnau ar ôl y treial.

O fewn y prif resymau hyn, parhaodd rhyddfarnau ar ôl y treial fel y categori mwyaf, yn cynyddu dros y cyfnod o dair blynedd, o 36.3% i 39.9%. Dengys Tabl 2 bod y mwyafrif o'r rhain yn rhyddfarnau gan reithgor yn hytrach na'u bod wedi eu cyfarwyddo gan y barnwr. Ni newidiodd materion dioddefwyr lawer ar 11.8% yn 2006 - 07 o'i gymharu â 12% yn 2008 - 09.

Tabl 3 – Prif Resymau dros Eryniadau Aflwyddiannus

	2006-07		2007-08		2008-09	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Dioddefwr yn tynnu'n ôl	144	5.5%	105	4.9%	109	5.5%
Dioddefwr ddim yn mynychu	47	1.8%	47	2.2%	31	1.6%
Tystiolaeth Dioddefwr ddim yn cefnogi'r achos	119	4.5%	117	5.4%	97	4.9%
Cyfanswm Materion dioddefwyr	310	11.8%	269	12.5%	237	12.0%
Gwrthdaro tystiolaeth	212	8.1%	188	8.7%	175	8.8%
Elfen gyfreithiol hanfodol ar goll	349	13.3%	252	11.7%	214	10.8%
Tyst Annibynadwy	204	7.8%	156	7.2%	126	6.4%
Effaith ar iechyd meddwl dioddefwr/tyst	27	1.0%	16	0.7%	23	1.2%
Rhyddfarnau	954	36.3%	791	36.7%	790	39.9%
Cyfanswm Prif Resymau	2,056	78.2%	1,672	77.6%	1,565	79.1%
Holl Resymau Eraill	518	19.7%	433	20.1%	355	17.9%
Cwblhad gweinyddol	56	2.1%	49	2.3%	59	3.0%
Cyfanswm	2,630		2,154		1,979	

Dengys Tabl a siart 4 beth yw nifer a chyfran materion dioddefwyr mewn perthynas â'r holl ganlyniadau. Gostyngodd nifer a chyfran y rheiny a oedd yn aflwyddiannus oherwydd anawsterau dioddefwyr ychydig o 269 (3.3%) yn 2007 – 08 i 237 (3.0%) yn 2008 – 09. Gostyngodd cyfanswm canlyniadau aflwyddiannus o ychydig dan 32% yn 2006 – 07 i ychydig dan 25% yn 2008 – 09, gan fynd tu draw i'r targed blynyddol o 28%.

Tabl 4 – Cymhariaeth Prif Faterion Dioddefwyr**Materion dioddefwyr mewn perthynas â'r holl ganlyniadau****% Materion dioddefwyr**

	2006-07		2007-08		2008-09	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
<i>Cyfanswm Aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr</i>	310	3.7%	269	3.3%	237	3.0%
Cyfanswm Aflwyddiannus	2,630	31.7%	2,154	26.5%	1,979	24.9%
Cyfanswm Euogfarnau	5,675	68.3%	5,976	73.5%	5,955	75.1%
Cyfanswm Erlyniadau	8,305		8,130		7,934	


Cydraddoldeb

(i) Diffynyddion

Rhywedd

Mae Tabl 5 yn rhoi dadansoddiad o rywedd diffynyddion a dioddefwyr yn eu tro. Arhosodd y gyfran o ddiffynyddion gwryw heb newid ar 95% o'r cyfanswm.

Tabl 5 – - Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Rhywedd y Diffynnydd



	2006-07		2007-08		2008-09	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Menywod	348	4.2%	368	4.5%	359	4.5%
Dynion	7,957	95.8%	7,761	95.5%	7,571	95.4%
Anhysbys	0	0.0%	1	0.0%	4	0.1%
Cyfanswm	8,305		8,130		7,934	

Ethnigrwydd

Cesglir data Ethnigrwydd ar ddiffynyddion gan y CPS yn unol â diffiniadau cytunedig y System Cyfiawnder Troseddol i'r 16+1 o gateoriau ethnig. Yn 2008 – 09, dynodwyd 69% o ddiffynyddion mewn achosion yn ymwneud â throseddau rhywiol ac eithrio trais rhywiol fel rhai'n perthyn i'r categori Prydeinig Gwyn, a chategoreiddiwyd 74% yn Wyn. Dynodwyd 7% o ddiffynyddion yn Asiaidd, a 6% pellach yn Ddu. Nid oedd y cyfrannau hyn wedi newid fawr ers y flwyddyn flaenorol. Ychydig dros 4% o ddiffynyddion a fethodd â dynodi ethnigrwydd wrth eu harestio, o'i gymharu â 5% yn 2007 - 08. Mewn 6% pellach o achosion, ni chwblhawyd y cofnod ethnigrwydd.

(ii) Dioddefwyr

Rhyw

Ceir data ar ddioddefwyr o'r System Reoli Tystion ond nid yw'n cynnwys unrhyw gofnod o ddioddefwyr troseddau rhywiol heblaw am drais rhywiol, gan mai dim ond ar lefel y diffynnydd y cesglir y wybodaeth.

Priodas dan orfod, Trais yn Seiliedig ar Anrhydedd a Llurgunio organau rhywiol Menywod

Mae'r CPS wedi cynnwys trais yn seiliedig ar anrhydedd, priodas dan orfod a llurgunio organau rhywiol menywod oddi mewn i bolisi a chyfarwyddyd trais domestig. Hyd yma, ni ddaethpwyd ag unrhyw achosion o lurgunio organau rhywiol menywod (FGM) ymlaen i'w herlyn. Fodd bynnag mae'r CPS wedi parhau i wneud erlynyddion yn ymwybodol o'r materion o amgylch y pwnc hwn o fewn ei hyfforddiant trais domestig ac mae wedi gweithio ar draws y llywodraeth i helpu ymdrin â'r ymarfer hwn. Mae'r gwaith hwn yn mynd yn ei flaen ac mae'n ffurfio rhan o Gynllun Cyflenwi Cenedlaethol Trais Domestig traws-lywodraeth ar gyfer 2009 - 10.

Mae'r arweinydd Polisi yn rhan o Grŵp Llywio traws-lywodraeth sy'n amcanu at ddynodi a chynhyrchu offer ymarferol er mwyn cynorthwyo dioddefwyr a dioddefwyr posib i ymdrin â FGM.

Cynhaliodd y CPS beilot ar Briodas dan Orfod a thrais yn seiliedig ar anrhydedd rhwng Gorffennaf 2007 a Mawrth 2008 i ddynodi a monitro'r achosion hyn am y tro cyntaf. Dewiswyd Erlynyddion Arbenigol yn benodol, rhoi cyfarwyddyd iddynt a'u hyfforddi i arwain ar erlyn yr achosion hyn. Roedd y prosiect yn anelu at:

- Ddynodi'r nifer a phatrwm achosion priodas dan orfod a thrais yn seiliedig ar anrhydedd;
- dynodi unrhyw faterion yn wynebu erlynyddion mewn dynodi, rheoli ac erlyn y fath achosion yn fanwl; a
- hysbysu datblygiad unrhyw gyfarwyddyd a hyfforddiant cenedlaethol i erlynyddion.

Cyhoeddwyd adroddiad ar yr astudiaeth beilot 2007 - 08 ar erlyniad achosion priodas dan orfod a thrais yn seiliedig ar anrhydedd yn Rhagfyr 2008. Roedd yr argymhellion yn ffocysu ar dair prif adran:

- erlyniad achosion;
- cefnogaeth i ddioddefwyr a thystion; a
- baneri achosion i'r dyfodol.

Dechreuwyd ar weithredu'r argymhellion yn 2008 - 09 ac mae'n parhau i mewn i 2009 - 10. Gofynnwyd i grwpiau ddewis erlynyddion arbenigol i ddelio gyda'r achosion hyn yn 2009 - 10. Bydd y cyfarwyddyd i'r erlynyddion hyn ynn cael ei ddatblygu yn 2009 - 10 mewn cysylltiad â rhanddeiliaid CPS yn cynnwys gwasanaethau cymorth arbenigol. Bydd yr hyfforddiant i'r erlynyddion a ddewiswyd yn digwydd ac yna gosodir baneri ar yr holl achosion i gofnodi perfformiad yn cychwyn yn Ebrill 2010.

Mae'r arweinydd Polisi ar Briodas dan Orfod a thrais yn seiliedig ar anrhydedd wedi gweithio gydag arweinwyr yn yr Heddlu i hysbysu'r strategaeth drais wedi'i seilio ar anrhydedd ACPO. Wedi ei lansio yn Hydref 2008, ceisiodd wella ymateb yr heddlu i drais wedi'i seilio ar anrhydedd, yn cynnwys priodas dan orfod yn genedlaethol.

Gweithredwyd y Ddeddf Priodas dan Orfod (Amddiffyn Sifil) 2007 yn Nhachwedd 2008 ac mae'n cynnig datrysiaid sifil i ddioddefwyr neu ddioddefwyr posib priodas dan orfod. Mae'r Ddeddf yn caniatáu i'r llys wneud Gorchmynion Amddiffyn Priodas dan Orfod (FMPO). Gellir defnyddio'r rhain i rwystro Priodasau

dan Orfod rhag digwydd neu i amddiffyn dioddefwyr sydd eisoes wedi eu gorfodi i briodi. Ers i'r Ddeddf ddod i rym, rhoddwyd 23 o Orchmynion Amddiffyn.

Mae'r arweinydd Polisi wedi gweithio ar draws y llywodraeth yn 2008 - 2009 i ddatblygu cyfarwyddyd statudol aml-asiantaeth ar gyfer delio â Phriodas dan Orfod. Wedi ei gyhoeddi i gyd-fynd â lansio'r Ddeddf, mae'r cyfarwyddyd yn gwneud yn glir y swyddogaethau strategol mae'n rhaid i asiantaethau eu dilyn er mwyn gwella'r ymdriniaeth o achosion priodas dan orfod. Bydd y cyfarwyddyd statudol hwn a arweinir gan y Llywodraeth yn cael ei ategu gan ddiwygiad o'r canllawiau ymarferwyr llinell-flaen, a fydd yn cael eu cyhoeddi mewn fformat llyfryn unigol aml-asiantaeth yn ystod 2009.

Bydd y CPS yn parhau i weithio'n agos ag ACPO ac Adrannau Llywodraeth eraill drwy gydol 2009 – 10 i ddatblygu ymateb cymunedol cydlynol er mwyn helpu rhwystro a lleihau trais yn seiliedig ar anrhydedd, yn cynnwys priodas dan orfod.

Priodas dan orfod

Carcharwyd mam am dair blynedd ar ôl iddi orfodi ei dwy ferch ifanc i briodi eu cefndryd ym Mhacistan. Twyllodd y wraig Foslemaidd y menywod, 14 ac 15 oed, i wneud iddynt feddwl mai mynd ar wyliau teuluol oeddynt.

Pan gyrhaeddodd y ddwy ferch ysgol, gwelsant baratoadau yn cael eu gwneud iddynt briodi eu cefndryd cyntaf mewn seremoni ar y cyd. Yn dilyn y briodas, wynebodd y ddwy ferch drais eithafol a gorfodwyd iddynt gael rhyw â'u 'gwŷr'.

Erlynwyd y fam a'i chael yn euog o droseddau rhyw plant a cheisio gwyrddroi cwrs cyfiawnder gan nad oes cyfraith bresennol i wahardd priodas dan orfod.

Trosedd Anrhydedd

Roedd merch a dau frawd mewn parti yn yfed alcohol. Cafodd y ferch neges destun i ddweud bod ei brodyr wedi cael gwybod ei bod yn yfed ac o ganlyniad eu bod ar y ffordd i'r parti i'w herio ac i ddial ar ei ffrindiau am ei chael hi i yfed alcohol.

Daeth ei dau frawd (y diffynnyddion) i'r parti gyda nifer o ddynion Asiaidd gydag arfau yn eu meddiant, yn cynnwys cyllyll a chadwyni. Chwiliasant am y ddau frawd (y dioddefwyr) ac ymosod arnynt gydag arfau. Ymosododd y dynion eraill arnynt hefyd, gan ddefnyddio arfau gwahanol. Gwelodd y ferch yr ymosodiad, ac aeth hi gyda'r dioddefwyr i'r ysbyty. Daeth yr Heddlu i'r digwyddiad a dynodi tri safle trosedd ar wahân. Cafodd y dioddefwyr doriadau dwfn a chleisiau. Erlynwyd yr achos a chafodd y ddau ddiffynnydd 18 mis o ddedfryd o garchar.

Cam-Drin Plant

Cyhoeddwyd Polisi Plant a Phobl Ifanc y CPS yn 2006. Roedd sefydliadau plant a phobl ifanc eu hunain yn rhan o adolygu'r fersiynau drafft o'r polisi a chynhyrchwyd fersiynau plant o'r polisi'n ogystal.

Diogelu Plant – Cyhoeddwyd Cyfarwyddyd ar Blant fel Dioddefwyr a Thystion yn 2008 a'r Cyfarwyddyd ar Erlyn Achosion Cam-drin Plant yn 2009.

Mae'r holl ddogfennau hyn yn adlewyrchu ymrwymiad y CPS i weithio gydag asiantaethau eraill i ddiogelu plant. Mae grŵp ymgynghorol allanol parhaol yn gweithio gyda'r CPS ar faterion plant.

Mae hyfforddiant yn ymwneud â Diogelu Plant yn cael ei ymgorffori i gyrsiau presennol. Mae cwrs CPS ar wahân, penodol ar erlyn achosion cam-drin plant ar gael yn genedlaethol.

Mae argymhellion o'r Adroddiad HMCPSI o'r Ail Adolygiad o Rôl a Chyfraniad y CPS at Ddiogelu Plant (Awst 2008) yn cael eu gweithredu fel ag y mae'r argymhellion i'r CPS o'r Adroddiad NSPCC 2009 Measuring Up? Evaluating government commitments to young witnesses in criminal proceedings.

Mae'r CPS wedi gweithio'n agos ag ACPO yn eu diwygiadau o Lawlyfr Uwch Swyddogion Ymchwilio a'u Cyfarwyddyd ar Ymchwiliadau Cam-drin Plant a Diogelu Plant a gydag adolygiad yr OCJR Tystion Ifanc.

Cynrychiolir y CPS ar y gweithgor sy'n edrych ar a.28 Deddf Cyfiawnder ieuencid a Thystiolaeth Droseddol 1999 (croesholi cyn-treial wedi'i recordio ar fideo).

Mae'r gwaith yn parhau ar gytuno ar ddiffiniad y CPS o "gam-drin plant" sydd i'w rannu i'r Ardaloedd i bwrpas monitro perfformiad erlyniad.

Mae'r CPS hefyd wedi bod yn gweithio ar ansawdd y fideos Cyflawni'r Dystiolaeth Orau; adfocatiaeth mewn achosion tystion plant; diogelu plant anabl; y darpariaethau fetio a gwahardd; adolygiad yr Arglwydd Laming; achosion yn cynnwys tystion ifanc iawn; ac ymateb i'r ymgynghoriad Adolygiad Achos Difrifol.

Achos trais rhywiol hanesyddol - diffynnydd yn cael ei erlyn ar ôl gadael y DU

Roedd y diffynnydd yn byw dramor pan wnaeth yr heddlu ymgynghori gyntaf â'r CPS ar yr achos. Yr achwynydd oedd cyn-lysferch y diffynnydd. Roedd yr honiadau yn dyddio o 1981 i 1987.

Gwnaethpwyd cais am Warrant Arestio Ewropeaidd (EAW) a rhoddwyd hi, ac arestwyd y diffynnydd dramor, ac er iddo apelio yn erbyn y broses estraddodi, yn y diwedd cafodd ei estraddodi'n llwyddiannus i'r DU.

Cafodd dditiad ar 3 achos o anwedduster difrifol gyda phlentyn a 3 chyfrif o drais rhywiol ar ei gyn-lysferch rhwng 1981 ac 1987. Fe'i cafwyd yn euog ar y 6 chyfrif a'i ddedfrydu i 12 mlynedd o garchar.

Cysurodd y gweithiwr achos y tystion yn yr achos a'u cefnogi yn y Llys. Derbyniodd y CPS a'r heddlu e-bost gan y teulu ar ôl y treial yn diolch i bawb ar y Tîm Erlyniad am eu gwaith caled a'u hymdrech i ddod â'r achos gerbron Llys.

Prif Ganfyddiadau Troseddau Cam-drin Plant

Dynodir achosion cam-drin plant trwy i'r defnyddiwr CMS roi baner monitro ar yr achos ar y cam cyn cyhuddo. Hefyd adroddir ar ganlyniadau erlyniad yn ôl categori prif drosedd (lladdiad, troseddau'n erbyn yr unigolyn a throseddau rhywiol), a ddyfernir ar ddiwedd achosion. Tra'n disgwyl cwblhad diffiniad y CPS o gam-drin plant a gytunir yn genedlaethol yn ystod 2009-10, mae angen gofal wrth ddehongli y data cam-drin plant isod.

Disgynnodd y gyfran o ddiffynyddion gwrywaidd a erlynwyd am laddiad plentyn, a erlynwyd am laddiadau plant o 77% yn 2006 - 07 i 73% yn 2008 - 09, gyda llai o euogfarnau ar 78%, o'i gymharu â 87%. Yn yr un modd, disgynnodd y gyfran o ddynion a erlynwyd am droseddau'n erbyn yr unigolyn o 76% yn 2006 - 07 i 74% yn 2008 - 09, tra bod yr euogfarnau wedi parhau yr un fath ar 72%. Arhosodd y dynion a erlynwyd am droseddau rhywiol yn debyg ar 98% gyda chynnydd mewn euogfarnau o 69% i 75%.

Lladdiad

Yn y tair blynedd yn diweddu Mawrth 2009, erlynwyd 103 o ddiffynyddion am droseddau cam-drin plant gyda chategori prif drosedd o laddiad. Mae'r categori hwn yn cynnwys achosion am wneud bygythiadau i ladd, cynorthwyo troseddwr yn achos llofruddiaeth, babanladdiad, dinistrio plentyn, ac achosi marwolaeth trwy yrru'n ddiofal dan ddylanwad diod neu gyffuriau, yn ogystal â llofruddiaeth a dynladdiad. Disgynnodd euogfarnau o 83% yn 2006 - 07 (25 allan o 30 o ddiffynyddion) i 75% yn 2008 - 09 (33 allan o 44 o ddiffynyddion).

Amrywiodd y gyfran o ddynion a erlynwyd yn y categori hwn o 77% yn 2006 - 07 i 73% yn 2008 - 09.

	2006-07				2007-08				2008-09			
	Dynion		Menywod		Dynion		Menywod		Dynion		Menywod	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Euogfarnau	20	87.0%	5	71.4%	14	70.0%	6	66.7%	25	78.1%	8	66.7%
Aflwyddiannus	3	13.0%	2	28.6%	6	30.0%	3	33.3%	7	21.9%	4	33.3%
Cyfanswm	23		7		20		9		32		12	

Troseddau yn erbyn yr unigolyn

Yn y tair blynedd yn diweddu Mawrth 2009, erlynwyd 6,730 o ddiffynyddion am droseddau cam-drin plant gyda chategori prif drosedd o droseddau'n erbyn yr unigolyn. Cynyddodd yr euogfarnau ychydig i 73% yn 2008 - 09 o 72% yn 2006 - 07 a 2007 - 08.

Disgynnodd y gyfran o ddynion a erlynwyd yn y categori hwn ychydig o 76% yn 2006 - 07 i 74% yn 2008 - 09.

	2006-07				2007-08				2008-09			
	Dynion		Menywod		Dynion		Menywod		Dynion		Menywod	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Euogfarnau	1,260	71.7%	408	72.9%	1,269	72.0%	417	72.5%	1,107	72.1%	406	75.2%
Aflwyddiannus	497	28.3%	152	27.1%	493	28.0%	158	27.5%	429	27.9%	134	24.8%
Cyfanswm	1,757		560		1,762		575		1,536		540	

Troseddau Rhywiol

Yn y tair blynedd yn diweddu Mawrth 2009, erlynwyd 11,810 o ddiffynyddion am droseddau cam-drin plant gyda chategori prif drosedd o droseddau rhywiol. Cododd euogfarnau o 69% yn 2006 – 07 i 75% yn 2008 – 09.

Arhosodd y gyfran o ddynion a erlynwyd yn y categori hwn mwy neu lai'r un fath ar 98% yn 2006 – 07, 2007 - 08 a 2008 - 09.

	2006-07				2007-08				2008-09			
	Dynion		Menywod		Dynion		Menywod		Dynion		Menywod	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Euogfarnau	2,607	69.3%	53	67.9%	2,797	72.3%	43	58.1%	2,948	74.7%	63	75.9%
Aflwyddiannus	1,157	30.7%	25	32.1%	1,069	27.7%	31	41.9%	997	25.3%	20	24.1%
Cyfanswm	3,764		78		3,866		74		3,945		83	

Masnachu mewn Pobl

Cyhoeddodd y CPS gyfarwyddyd cyfreithiol wedi'i ddiweddarau ar fasnachu mewn pobl ym Mawrth 2009 i adlewyrchu newidiadau polisi pellach; yn enwedig y rheiny a oedd yn deillio o weithrediad Confensiwn Cyngor Ewrop.

Cadarnhawyd Confensiwn Cyngor Ewrop gan y Llywodraeth yn Rhagfyr 2008 a'i weithredu yn Ebrill 2009. Cyflwynodd nifer o ddarpariaethau a fydd yn gwella gallu'r CPS i ddynodi dioddefwyr a dod â mwy o achosion gerbron. Mae'r darpariaethau'n cynnwys:

- Mekanwaith atgyfeirio cenedlaethol i alluogi dynodiad effeithiol o ddioddefwyr ac atgyfeirio i gefnogaeth briodol;
- Cyfnod adfyfrio o 45 diwrnod, y gellir ei ymestyn mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft trawma eithafol
- Caniatâd preswyllo: a roddir am leiafswm o flwyddyn ac y gellir ei adnewyddu, i ddioddefwyr sy'n cydweithredu gydag ymchwiliad neu achosion troseddol.

Mae'r CPS wedi parhau i gyfrannu at gyflenwi Cynllun Gweithredu ar draws llywodraeth y DU i ymdrin â masnachu mewn pobl, a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2008. Cafodd y cynllun diwygiedig ei gyhoeddi yn Hydref 2009. Mae nifer o weithredoedd y mae'r CPS yn gyfrifol amdanynt ac yn gallu cyfrannu atynt yn nhermau diogelu a chefnogi dioddefwyr, a gwella'r raddfa erlyniad. Mae'r CPS yn parhau i fonitro deddfwriaeth masnachu mewn pobl ac yn gweithio gyda swyddogion y Swyddfa Gartref i sicrhau ei fod yn ddigon cadarn i alluogi erlyniadau llwyddiannus. Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol yng Ngorffennaf 2009 i un diwygiad o'r fath i alluogi erlynyddion erlyn y rheiny sy'n masnachu babanod a phlant ifanc er mwyn ennill buddiannau.

Mae arweinydd Polisi'r CPS yn awr yn cadeirio Grŵp Gofal Dioddefwyr Canolfan Masnachu mewn Pobl y DU (UKHTC), sydd â chylch gorchwyl i gyfrannu at gyflenwi diogelwch a chymorth i blant ac oedolion sy'n ddioddefwyr masnachu mewn pobl. Mae uwch erlynydd o'r Adran Troseddu Cyfundrefnol hefyd yn cyfrannu at Grŵp Atal UKHTC.

Mae'r nifer o achosion masnachu mewn pobl a erlynwyd yn dal i godi flwyddyn ar ôl blwyddyn ac y llynedd gwelwyd yr euogfarnau cyntaf ar gyfer masnachu mewn pobl ar gyfer llafur gorfodol. Hefyd i erlyn masnachwyr mewn pobl, mae'r CPS hefyd yn mynd ar ôl asedau ariannol o dan Elw Troseddau.

Mae'r CPS yn weithredol mewn dilyn i fyny brosiectau adeiladu cynhwysedd mewn awdurdodaethau sy'n rhai blaenoriaeth i'r DU; hynny yw mewn gwledydd ble y gellir gwneud y mwyaf i leihau'r difrod i'r DU. Trwy adeiladu cynhwysedd yn y wlad ffynhonnell, yr amcan yw helpu erlyn ei throseddwyr a'i throseddau yn well, a thrwy hynny lleihau'r niwed posib trwy drosedd yn y wlad gartref a'r DU. Ar hyn o bryd mae gwaith ar brosiect ar y cyd gyda'r Iseldiroedd i ymdrin â masnachu mewn pobl o Nigeria trwy adeiladu cynhwysedd. Y llynedd llofnododd y DU a daeth yn rhan o Dîm Ymchwilio ar y Cyd (JIT) cyfredol gyda Rwmania i ymdrin â masnachu plant o Rwmania i'r DU.

Rhoddwyd hyfforddiant i erlynydd profiadol ym mhob un o'r 42 o Ardaloedd CPS, i Benaethiaid 14 o Unedau Gwaith Achos Cymhleth, ac i erlynyddion sy'n gweithio ym mhob un o'r 3 Adran Gwaith Achos Pencadlys yn 2008 - 09. Cyn gweithgaredd heddlu cenedlaethol Pentameter 2, derbyniodd erlynyddion yr un wybodaeth briffio â'r uwch swyddogion ymchwilio yn ymwneud â deddfwriaeth, archwiliadau ariannol, casglu tystiolaeth a dioddefwyr. Bwriedir cael hyfforddiant pellach i erlynyddion yn Ne a Gorllewin Swydd Efrog trwy eu partner dysgu a datblygu. Mae uwch erlynydd yn cyfrannu at y Grŵp Llywio a arweinir gan Ganolfan Masnachu mewn Pobl y DU (UKHTC) sy'n dynodi anghenion hyfforddiant ymchwilyr ac erlynyddion ac sy'n datblygu deunydd hyfforddiant perthnasol.

Mae'r CPS yn aelod o Grŵp Llywio aml-asiantaeth a arweinir gan Ganolfan Masnachu mewn Pobl y DU ar masnachu mewn pobl mewnol o genethod Prydeinig ifanc yn y DU; mae genethod mor ifanc â 12 ac 13 oed yn cael eu paratoi a'u masnachu ar gyfer ecsbloetiaeth rywiol oddi mewn i'r DU. Mae'r gwaith hwn yn cysylltu'n agos â gwaith traws-lywodraeth ar baratoi'r Cyfarwyddyd Diogelu i blant sy'n cael eu hecsbloetio'n rhywiol ac ar Ffoaduriaid Ifanc a Phlant sydd ar Goll o Ofal a Chartref, a arweinir gan Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd a'r Swyddfa Gartref.

Mae'r CPS yn gweithio gyda Swyddogion HTC y DU a'r Swyddfa Gartref i ddatblygu gwell casglu data ac i fonitro canlyniadau erlyniad. Yr amcan yw datblygu system fonitro electronig ar gyfer achosion masnachu mewn pobl, gan rannu data ar draws adrannau llywodraeth.

Mae'r data a ddarparwyd i'r adroddiad hwn yn dod o Ganolfan Masnachu mewn Pobl y DU am 2008 - 09. Yn ystod 2008 - 09 219 cofnodwyd arestiadau ar gyfer troseddau masnachu mewn pobl. O'r rhain, roedd 82 am droseddau masnachu mewn pobl i ddibenion ecsbloetiaeth rywiol, 26 i gaethwasanaeth domestig, a 111 fel llafur gorfodol.

Erlynwyd 80 o ddiffynnyddion yn 2008 - 09, am fasnachu mewn pobl i ddibenion ecsbloetiaeth rywiol o dan Adrannau 57 - 59 Deddf Troseddau Rhywiol 2003; roedd eu hanner o'r Undeb Ewropeaidd. Roedd 50 o'r diffynnyddion yn ddynion. Cafwyd 28 o ddiffynnyddion yn euog; alltudiwyd 1 o dan warant Ewropeaidd, cafwyd 3 yn euog o gynllwyn i fasnachu pobl; mae 3 wedi eu cadw ar y ffeil heb unrhyw droseddau eraill ac mae 21 yn aros ar y ffeil gydag euogfarn am droseddau eraill¹². Cafwyd 23 o'r diffynnyddion yn ddieuog.

O'r 227 o ddioddefwyr yr holl droseddau masnachu mewn pobl, roedd 140 yn fenywod a 87 yn ddynion. Roedd y mwyafrif rhwng 21-25 oed.

Astudiaeth achos: Masnachu mewn pobl

Erlynodd Adran Troseddu Cyfundrefnol y CPS nifer o ddiffynnyddion yn llwyddiannus, a oedd yn masnachu mewn dioddefwyr benywaidd i'r DU o neu drwy Lithwania. Cafodd y masnachwyr mewn pobl ddedfrydau sylweddol o garchar.

Pan arestiodd yr awdurdodau yn Lithwania y sawl oedd yn gyfrifol am recriwtio a thwylo'r menywod, rhoddodd erlynydd y CPS dystiolaeth i gefnogi eu herlyniadau trwy ddefnyddio pwerau o dan adran 74 o Ddeddf Trosedd Gyfundrefnol Ddifrifol a'r Heddlu 2005. Mae hyn yn rhoi adolygiad o'r ddedfryd am gymorth a roddir gan ddiffynnydd ble y gall erlynydd penodol, ar unrhyw adeg, gyfeirio achos yn ôl i'r llys ble y pasiwyd y ddedfryd os yw dedfryd yr unigolyn yn parhau, a bod yr erlynydd yn meddwl er budd cyfiawnder ei fod yn gwneud hynny.

Galluogodd y pwerau hyn i fasnachwr mewn pobl a gafwyd yn euog deithio o'r DU i Vilnius ym Mai 2008 i roi dystiolaeth yn erbyn y dynion yr oedd wedi prynu y menywod ganddynt. O ganlyniad, cafwyd oddeutu 30 o ddiffynnyddion yn euog yn Lithwania o fasnachu mewn pobl a throseddau eraill. Diolchodd y Barnwr i awdurdodau'r DU am eu cymorth gwerthfawr yn yr achos.

Dyma'r tro cyntaf i'r pwerau hyn gael eu defnyddio yn achos diffynnydd a helpodd i sicrhau euogfarnau mewn awdurdodaeth arall ac yr oedd yn ei gwneud yn ofynnol i erlynydd y CPS ddefnyddio, yn arloesol, ddeddfwriaeth newydd er mwyn cynorthwyo awdurdodau tramor. Pan ddychwelodd y masnachwr mewn pobl euogfarnedig i'r DU, adolygwyd ei ddedfryd wreiddiol gan y llys a'i dedfrydodd yn wreiddiol, a chafodd ei lleihau o 7 i 3 blynedd a hanner er mwyn ei wobrwyo am ddod â nifer sylweddol o ddiffynnyddion ychwanegol i'r llys. Yn dilyn hynny cafodd ei alltudio.

¹² Aros ar y ffeil – dynodi pledio'n euog a dedfryd am droseddau eraill.

Astudiaeth achos: Masnachu mewn pobl

Erlynwyd achos gan Adfocad y Goron cyntaf y CPS a benodwyd i fod yn Gwnsler y Frenhines. Cafwyd pedwar allan o bump o'r diffynyddion yn euogfarnedig a charcharwyd y prif fasnachwyr mewn pobl am 13 blynedd a 12 mlynedd. Cludodd dau o'r diffynyddion Albaniaid ferch ifanc yn ei harddegau a oedd yn byw mewn cartref plant mewn tref fechan yn Lithwania ac nad oedd yn siarad Saesneg, i'r DU gyda'r addewid y byddai'n gweithio mewn siop dros gwyliau'r haf yn 2007. Pan gyrhaeddodd, cafodd ei gorfodi i weithio fel putain mewn sawna a fflatiau yn ogystal â chael rhyw gyda'i masnachwyr mewn pobl. Ymosodwyd arni pan geisiodd redeg i ffwrdd.


Yna cafodd ei gwerthu i'r diffynyddion eraill a chafodd ei gyrru i gyfeiriad yn Ne Cymru ble y cyfarfu â merch ifanc arall o Lithwania (dioddefwraig 2) a oedd hefyd wedi ei phrynu gan y masnachwyr mewn pobl. Cafodd y menywod ifanc eu bygwth a'u gorfodi i weithio fel puteiniaid yng Nghymru; cymerodd y masnachwyr mewn pobl eu holl enillion. Achubwyd y menywod gan yr Heddlu yn Hydref 2007.

Data Ystadegol Masnachu mewn Pobl – 2008 - 09

Bu'r Ganolfan Masnachu mewn Pobl y Deyrnas Unedig (UKHTC) mewn bodolaeth ers Hydref 2006, ac yn yr amser hwnnw mae hi wedi cychwyn ar raglen o gasglu data, mewn perthynas â dioddefwyr a phobl ddrwgdybiedig, sy'n gysylltiedig â masnachu mewn pobl (THB), i, oddi mewn, ac allan o'r DU. Mae'r data yn yr adran hon wedi ei gasglu gan yr UKHTC. Dylid cyfeirio ymholiadau yn achos y data i Andy Eddison (Andy.Eddison@southyorks.pnn.heddlu.uk) ac unrhyw ymholiadau eraill i Glynn Rankin, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol, UKHTC (Glynn.Rankin@southyorks.pnn.heddlu.uk).


Diffynyddion y Deliwyd â Nhw am Fasnachu mewn Pobl ar gyfer Ecsbloetiaeth rywiol dan Adrannau 57 - 59 y Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003

Tabl 1 – Cenedl a Rhywedd Diffynyddion yn Ymddangos yn y Llys ‡



Cenedl	CYFANSWM	GWRYW	BENYW
Albaniaid	1	1	0
Bangladeshaidd	1	1	0
Prydeinig	4	3	1
Tsieineaidd	12	4	8
Tsiec	7	5	2
Almaenig	1	1	0
Hwngaraidd	8	6	2
Cosofiad	4	4	0
Lithwanaidd	6	4	2
Malaiadd	2	2	0
Pwyleg	1	0	1
Romaniaidd	11	7	4
Serbiaidd	1	1	0
Slofaciaidd	2	2	0
Gwlad Thai	17	7	10
Twrceg	2	2	0
CYFANSWM	80	50	30

Tabl 2 – Ystod Oed y Diffynyddion ‡




‡ Ffynhonnell data: Canolfan Masnachu mewn Pobl y DU

- Mae 50% o'r holl ddiffynyddion o'r UE

Ystod Oed y Diffynyddion	Nifer
18 - 20	6
21 - 25	13
26 - 30	18
31 - 35	13
36 - 40	11
41 - 45	8
46 - 50	4
51+	7
CYFANSWM	80

‡ Ffynhonnell data: Canolfan Masnachu mewn Pobl y DU


Tabl 3 – Ymdriniaeth o'r Diffynyddion yn y Llys



Math o Ddeiliant	Nifer
Euog	28
Alltudiwyd dan Warant Ewropeaidd	1
Euogfarn o Gynllwyn i Fasnachu	3
Dieuog – Dim troseddau pellach	17
Dieuog – Troseddau eraill	6
Rhybudd	1
Aros ar y ffeil – Troseddau eraill*	21
Aros ar y ffeil – Dim Troseddau eraill*	3
CYFANSWM	80

* Aros ar y ffeil – dynodi pledio'n euog a dedfryd am droseddau eraill


• Ecsbloetiaeth lafur – Roedd 4 o euogfarnau eleni dan y Ddeddf Mewnfudo a Lloches 2004.

Tabl 4 – Cenedl y Dioddefwyr ‡

CENEDL	Nifer
Bwlgaria	7
Lithwania	4
Nigeria	13
Tseineiaidd	26
Fietnam	3
Romania	61
Slofacia	25
Mauritius	3
Hwngari	7
Philippines	4
Gwlad Thai	5
India	8
Gwlad Pwyl	22
Pacistan	3
Cameroon	3
Ethiopia	5
Gwledydd gyda dioddefwyr unigol	14
Gwledydd gyda dau ddioddefwr	14
CYFANSWM	227

‡ Ffynhonnell data: Canolfan Masnachu mewn Pobl y DU


- O'r 227 o ddioddefwyr roedd 140 yn fenywod ac 87 yn ddynion.
- Roedd dioddefwyr unigol o Estonia, Nepal, Gweriniaeth Tsiec, Congo, Morocco, Gambia, Sierra Leone, Uganda, y Deyrnas Unedig, Sri Lanka, Kenya, Angola, Irac a Bangladesh.
- Roedd dau ddioddefwr o Zimbabwe, De Affrica, Ghana, Indonesia, Belarus, Brasil ac Eritrea.

Tabl 5 – Ystod Oed y Dioddefwyr ‡

Ystod oed	Nifer*
10 - 17	18
18 - 20	38
21 - 25	52
26 - 30	39
31 - 35	24
36 - 40	24
41 - 45	14
46 - 50	6
51 +	6
CYFANSWM	221

* Nid yw 6 o Ddioddefwyr na chofnodwyd eu hoed ar adeg y cyfarfod wedi eu cynnwys

‡ Ffynhonnell data: Canolfan Masnachu mewn Pobl y DU

Tabl 6 – Mathau o Ecsbloetiaeth ‡

‡ Ffynhonnell data: Canolfan Masnachu mewn Pobl y DU

- 'Masnachu Plant o fewn y DU' – diffinnir fel masnachu mewnol o blant y DU neu'r rheiny sy'n preswyllo fel rheol oddi mewn i'r DU ar gyfer ecsbloetiaeth rywiol.
- 'Methu pennu – diffinnir fel data heb ei gofnodi ar yr adeg y cyfarfuwyd â'r dioddefwr.

Puteindra

Mae cyfarwyddyd polisi a chyfreithiol diwygiedig ar droseddau cysylltiedig â phuteindra i fod i gael ei gyhoeddi yn hydref 2009. Mae'r cyfarwyddyd yn pwysleisio y dylai erlynyddion edrych ar y rhai sy'n rhan o buteindra fel dioddefwyr ac, wrth ddelio gyda throseddau cymell a loetran, roi ystyriaeth i ddargyfeirio wedi ei gefnogi gan amodau i ymgysylltu â phrosiectau i ganfod ffyrdd allan. Gwneir cysylltiadau gyda throseddau TEM eraill ac mae Adroddiad Corston, sy'n delio â menywod fel troseddwyd, yn amlygu'r angen i gael dull aml-asiantaeth a dedfrydau amgen rhagor na charchar. I hysbysu'r cyfarwyddyd, bu peth ymgynghoriad gyda Grwpiau Prosiect Gweithwyr Rhyw, ACPO a thraws-adrannau llywodraeth.

Mae'r CPS wedi parhau i weithio gyda Swyddogion y Swyddfa Gartref ar ddarpariaethau sy'n gysylltiedig â phuteindra yn y Mesur Heddlu a Throsedd. Mae 9 o ddarpariaethau sy'n diwygio deddfwriaeth bresennol, yn darparu ar gyfer Gorchmynion Cau Puteindai, a newid trefniadau trwyddedu i glybiau dawnsio glin er mwyn rhoi rhagor o bwerau i awdurdodau lleol a chymunedau mewn rheoli eu hagog a'i rheoleiddiad.

Gwahoddwyd y CPS i weithio gyda swyddfa Maer Llundain, yr heddlu a grwpiau gwirfoddol i helpu ymdrin yn llym â phuteindra a masnachu mewn pobl cyn Gemau Llundain 2012; yn enwedig hysbysebu puteindai a gwasanaethau puteiniaid. Mae Prif Weithredwyr cwmnïau ffônau symudol hefyd wedi eu gwahodd i drafod sut y gellir dileu rhifau ffôn symudol a geir ar gardiau hysbysebu. Wrth ymdrin yn llym â'r gwasanaethau hyn cyn y Gemau, gobeithir y gellir lleihau'r galw am buteindra a'r masnachu menywod dilynol i fwydo'r galw hwn.

Erlynwyd 165 o droseddau rheoli puteindra yn 2007 – 08, a 134 yn 2008 - 09, gyda mwy yn cael eu herlyn am reoli puteindra er budd (93 yn 2008 - 09 o'i gymharu â 67 yn 2007 - 08) a llai am gymell merch gan ddyn (24 yn 2008 - 09 o'i gymharu â 82 yn 2007 - 08). Bu cynnydd mewn erlyniad o droseddau sy'n gysylltiedig â rheoli puteindy (91 erlyniadau yn 2008 - 09 o'i gymharu â 58 yn 2007 - 08), yn unol â pholisi llywodraeth o ffocysu ar y rhai sy'n rheoli puteindra ac edrych ar y rhai sy'n gweithio mewn puteindra fel dioddefwyr, a thrwy hynny ceisio eu dargyfeirio o'r System Cyfiawnder Troseddol. Hefyd roedd llai o erlyniadau am blagio pen ffordd sydd o bosib yn gysylltiedig â dargyfeirio droseddau e.e. rhybudd amodol a mwy o erlyniadau am hysbysebu puteindra.

Puteindra

Dedfrydwyd wyth o bobl – chwech o fenywod a dau ddyn – yn Chwefror 2009 i gyfanswm o 17 ½ blynedd o garchar am ystod o droseddau yn cynnwys masnachu merch i bwrpas ecsbloetiaeth rywiol, rheoli puteindy, cynllwyn i reoli puteindra er budd, gwyngalchu arian ac achosi neu annog puteindra er budd. Roedd y diffynyddion i gyd wedi pledio'n euog i'r troseddau.

Clywodd y llys sut y cludwyd y ddioddefwraig, mam ifanc i ddau o blant, i'r DU i dalu dyled anferth. Dywedwyd wrthi y byddai'n gweini, ond ar ôl cyrraedd rhoddwyd hi ar waith yn groes i'w hewyllys mewn cyfres o buteindai ar draws Prydain. Bob dydd cafodd ei gorfodi i gael rhyw gyda hyd at 15 o ddynion, gyda rhai ohonynt yn ei churo neu ei gorfodi i berfformio gweithredoedd rhywiol gwyrddroedig a threisgar. Ar un adeg, llwyddodd i ddianc o grafangau ei "pherchnogion" dim ond i gael ei hun wedi ei thwylo i ddwylo masnachwr mewn pobl arall. Yn y diwedd cafodd ei hachub gan un o'i chleientiaid a hysbysodd yr heddlu. Wrth roi dedfryd iddynt, dywedodd y barnwr bod y cyfan ohonynt yn eu hecsbloetio ac yn gwneud elw ohoni.

Troseddau yn cyrraedd gwrandawriad mewn Llysoedd Ynadon

Tabl 1 - Rheolaeth Puteindra

	2007-08	2008-09
	Nifer	Nifer
Achosi neu annog puteindra er budd Deddf Troseddau Rhywiol 2003 { 52 }	16	17
Rheoli puteindra er budd Deddf Troseddau Rhywiol 2003 { 53 }	67	93
Dyn yn cymell menyw yn barhaus i bwrsasau puteindra Deddf Troseddau Rhywiol 1985 { 2(1) }	82	24
CYFANSWM	165	134

Tabl 2 - Rheoli puteindy

	2007-08	2008-09
	Nifer	Nifer
Cadw puteindy Deddf Troseddau Rhywiol 1956 { 33 }	56	83
Landlord yn gosod eiddo i'w ddefnyddio fel puteind Deddf Troseddau Rhywiol 1956 { 34 }	0	0
Tenant yn caniatáu i'w eiddo gael ei ddefnyddio fel puteindy Deddf Troseddau Rhywiol 1956 { 35(1) }	1	6
Tenant yn caniatáu i'w eiddo gael ei ddefnyddio ar gyfer puteindra Deddf Troseddau Rhywiol 1956 { 36 }	1	2
CYFANSWM	58	91

Tabl 3 - Plagio pen ffordd

	2007-08	2008-09
	Volume	Volume
Deddf Troseddau Rhywiol 1985 { 1(1)(a) }	439	331
Deddf Troseddau Rhywiol 1985 { 1(1)(b) }	13	10
CYFANSWM	452	341

Tabl 4 - Hysbysebu Puteindra

	2007-08	2008-09
	Volume	Volume
Gosod hysbysebion mewn blychau ffôn Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 { 46 }	330	349

* Mae'r ffigurau yn Nhablau 1 i 4 yn cynrychioli'r nifer o droseddau ble cychwynnodd erlyniad, nid diffynyddion.

Pornograffi

Mae cofnodion y CPS yn dynodi yn ôl Deddf ac Adran faint o droseddau y cychwynnwyd eu herlyn mewn Llysoedd Ynadon. Fodd bynnag, nid oes gwybodaeth yn cael ei dal ar ganlyniadau'r achosion ar y lefel hon o fanylder, gyda chanlyniadau achosion yn cael eu cofnodi ar lefel y diffynnydd yn hytrach na lefel trosedd benodol. Yn ystod y broses erlyniad, efallai y caiff trosedd ei haddasu unwaith neu ragor, ond nid yw cofnodion y CPS yn rhoi unrhyw wybodaeth ynglŷn â p'un a arhosodd y drosedd wreiddiol fel y prif gyhuddiad ar ddiwedd yr achos.

Rhoddodd y seminar Pornograffi ac Anlladrwydd a gynhaliwyd yn Hydref 2008 ddealltwriaeth i erlynyddion o'r cyfreithiau a gweithdrefnau perthnasol angenrheidiol i erlyn achosion sy'n cynnwys lluniau anweddus o blant, troseddau anlladrwydd, a throsedd newydd o fod ym meddiant pornograffi eithafol.

Yn ystod 2008 – 09, erlynwyd nifer o droseddau pornograffi ac eraill a chyrhaeddodd o leiaf un wrandawriad mewn Llysoedd Ynadon o dan y Ddeddf Diogelu Plant 1978; Deddf Cyhoeddiadau Anllad 1959; Deddf Gohebiaethau Maleisus 1988; Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988; Deddf Arddangosfeydd Anllad Cyhoeddus (Rheolaethau) 1981; Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudiaeth 2008 a Deddf Cyfathrebu 2003. Mae cofnodion y CPS yn dynodi faint o achosion a gychwynnwyd o dan y Ddeddf Cyfathrebu ond nid ydynt yn gwahaniaethu rhwng y cyfathrebiadau hynny sy'n gysylltiedig â pornograffi a'r rhai nad ydynt.

Canfyddiadau Trosedd Pornograffi

Yn 2008 – 09 cychwynnodd erlyniad yng nghyswllt 791 o droseddau deunyddiau anweddus neu dramgwyddus iawn, 152 o droseddau sy'n gysylltiedig â cyhoeddiadau anllad, 1,278 o droseddau o anfon gohebiaethau tramgwyddus iawn neu ohebiaethau anweddus, 659 o droseddau o achosi blinder, anghyfleustra neu bryder diangen i unigolyn arall, a 2 drosedd (newydd) o fod â delweddau pornograffig eithafol yn eu meddiant. Dengys Tabl 1 y nifer o droseddau anlladrwydd yn 2007 – 08 a 2008 – 09.

Tabl 1 - Troseddau Anlladrwydd

	2007-08	2008-09
	Nifer	Nifer
Deddf Gohebiaethau Maleisus 1988 Adranau (1 (1)(a) & (1)(b)) – Deunydd anweddus neu dramgwyddus iawn	566	791
Deddf Cyhoeddiadau Anllad 1959 (2 (1)) - Cyhoeddiadau anllad	111	152
Deddf Cyfathrebu 2003 (127 (1)(a), (1)(b) & (3)) gohebiaethau tramgwyddus neu anweddus iawn	1,037	1,278
Deddf Cyfathrebu 2003 (127 (2)(a), (2)(b), (2)(c) a (3)) - achosi blinder, anghyfleustra neu bryder diangen i unigolyn arall	568	2,659
Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudiaeth 2008 (63 (1), (7)(d) a 67(3)) - Bod â meddiant ar delweddau pornograffig eithafol	0	2

Dengys Tabl 2 y nifer o droseddau sy'n cynnwys delweddau o gam-drin plant yn 2007 – 08 a 2008 – 09. Roedd y rhain yn cynnwys 4,241 o droseddau o fod mewn meddiant o lun anweddus o blentyn, a 14,656 o droseddau o ecsbloetiaeth rhywiol o blant trwy luniau, gyda 13,454 yn droseddau o wneud llun anweddus o blentyn, 931 yn droseddau o ddosbarthu llun anweddus o blentyn, 258 yn droseddau o ddangos lluniau anweddus, ac 13 yn droseddau o gyhoeddi hysbyseb yn debygol o awgrymu bod yr hysbysebwr yn dosbarthu neu'n dangos lluniau anweddus o blant.

Tabl 2 - Troseddau Lluniau Cam-Drin Plant

	2007-08	2008-09
	Nifer	Nifer
Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (160) - meddiant o lun anweddus o blentyn	3,079	4,241
Ecsbloetiaeth rhywiol o blant trwy luniau... <i>o'r rheiny</i>	11,873	14,656
Deddf Diogelu Plant 1978 (1 (1)(a)) - gwneud llun anweddus o blentyn	10,832	13,454
Deddf Diogelu Plant 1978 (1 (1)(b)) - dosbarthu llun anweddus o blentyn	678	931
Deddf Diogelu Plant 1978 (1 (1)(c)) - dangos lluniau anweddus o blant	345	258
Deddf Diogelu Plant 1978 (1 (1)(d)) - cyhoeddi hysbyseb yn debygol o awgrymu bod yr hysbysebwr yn dosbarthu neu'n dangos lluniau anweddus o blant	18	13

* Mae'r ffigurau yn Nhablau 1 a 2 yn dangos nifer o droseddau pryd y cychwynnodd erlyniad, nid diffynnyddion.

Astudiaeth achos 1

Derbyniodd troseddwr rhyw dedfryd amhenderfynadwy o garchar gyda lleiafswm cyfnod o bum mlynedd ar ôl iddo dreisio plentyn ac ymosod yn rhywiol ar blant ifanc. Roedd gan y diffynnydd hoffter rhywiol o enethod ifanc a chafodd ei arestio fel rhan o weithrediadau Scotland Yard.

Cyfaddefodd y diffynnydd i un cyhuddiad o dreisio plentyn dan 13 oed, chwech o ymosod yn rhywiol ar blant, a dau ymosodiad rhywiol trwy dreiddiad o blant. Cyfaddefodd hefyd ddwy drosedd o wneud delweddau anweddus o blant, pedwar cyhuddiad o ddosbarthu lluniau anweddus o blant a deg o droseddau o bod â lluniau anweddus o blant yn ei feddiant.

Canfuwyd 36,146 o luniau anweddus o blant a 660 o ffilmiau ar gyfrifiadur y diffynnydd. Roedd tystiolaeth bod y diffynnydd wedi dosbarthu delweddau a'u masnachu gydag eraill a bod y diffynnydd wedi paratoi ei ddioddefwyr cyn cymryd mantais arnynt.

Gosodwyd y diffynnydd ar gofrestr troseddwr rhyw ac mae wedi'i wahardd rhag gweithio gyda phlant am ei oes.

Astudiaeth achos 2

Mae diffynnydd a gafodd ei ddal gyda mwy na 1,000 o ddelweddau anweddus o blant, yn cynnwys “fideo hyfforddi” ar sut i gam-drin babanod, wedi ei garcharu am 16 mis.

Hefyd creodd y diffynnydd alter ego ar-lein o ferch ifanc er mwyn twyllo plant eraill i siarad gydag ef. Roedd un o'r ffilmiau a anfonodd at gyd-ddefnyddiwr yr ystafell sgwrsio o'r enw 'Pre-teen Story', a oedd yn dangos sut i gam-drin plant o bob oed.

Cafodd ei ddedfrydu ar ôl cyfaddef i 20 cyhuddiad o wneud delweddau anweddus, pump o fod â delweddau yn ei feddiant, a phump o ddosbarthu delweddau anweddus o blant. Gofynnodd hefyd am i 37 o droseddau pellach o ddosbarthu delweddau anweddus gael eu hystyried.

Roedd nifer o'r lluniau yng nghategori pump, y lefel fwyaf difrifol. Rhaid i'r diffynnydd lofnodi'r gofrestr troseddwyd rhyw am 10 mlynedd, a hefyd cafodd ei wneud yn destun i orchymyn atal troseddau rhywiol.

Astudiaeth achos 3

Cafodd dyn a ddaliwyd gyda delweddau anweddus o blant ei arestio gan yr heddlu ar ôl i awdurdodau yn yr Eidal hysbysu'r heddlu ei fod wedi bod yn edrych ar wefannau cam-drin plant a rhannu delweddau anweddus o blant. Canfu'r Heddlu ei fod wedi anfon mwy na 3,100 o ddelweddau anweddus o blant i bobl eraill drwy ystafelloedd sgwrsio.

Cafodd y diffynnydd ddedfryd o 18 mis o garchar a chafodd ei wahardd am byth rhag gweithio gyda phlant a'i orchymyn i lofnodi'r gofrestr troseddwyd rhyw am y 10 mlynedd nesaf. Hefyd cafodd ei wneud yn destun i orchymyn atal troseddau rhywiol, sy'n golygu bod rhaid iddo hysbysu'r heddlu os yw'n defnyddio cyfrifiadur ac ni chaiff ddefnyddio meddalwedd sy'n dileu delweddau.

Troseddau yn erbyn Pobl Hŷn

Mae'r CPS yn cydnabod bod troseddau yn erbyn pobl hŷn yn digwydd yng nghyd-destun poblogaeth hŷn gynyddol, ble gall pobl hŷn brofi agweddau negyddol a hyd yn oed gwahaniaethol. Mae'r CPS yn ymdrin ag erlyniad effeithiol a llwyddiannus o droseddau yn erbyn pobl hŷn fel mater cydraddoldeb oed. Mae'r CPS yn benderfynol o chwarae ei ran mewn herio agweddau negyddol tuag at bobl hŷn fel troseddau yn eu herbyn.

I'r diben hwn, cyhoeddwyd datganiad polisi cyhoeddus ar droseddau yn erbyn pobl hŷn a chyfarwyddyd i erlynyddion yng Ngorffennaf 2008. Cyhoeddodd y CPS y datganiad polisi cyhoeddus ar droseddau yn erbyn pobl hŷn a chyfarwyddyd i erlynyddion er mwyn helpu pobl hŷn, eu teuluoedd, cymunedau a'r cyhoedd i fod yn hyderus bod natur ddifrifol y troseddau hyn yn cael eu deall.

Er mwyn monitro effeithiolrwydd erlyniadau CPS yn y maes hwn, crëwyd y 'faner' troseddau yn erbyn pobl hŷn i'w defnyddio ar y system rheoli achos electronig. Mae'r faner yn berthnasol i droseddau:

- Ble bo perthynas a disgwyliad o ymddiriedaeth. Er enghraifft, gofalwr neu aelod o'r teulu'n dwyn neu'n ymosod;
- Sydd wedi eu targedu'n benodol ar yr unigolyn hŷn oherwydd eu bod yn cael eu canfod fel rhywun bregus neu'n 'darged hawdd'. Er enghraifft, byrgleriaeth ar ôl tynnu sylw, neu fygio;
- Nad ydynt i ddechrau'n gysylltiedig ag oed yr unigolyn hŷn, ond eu bod felly'n ddiweddarach. Er enghraifft, lladrad ble nad yw'r lleidr yn gwybod faint yw oed deiliad y tŷ ond wedyn mae'n cymryd mantais ar y sefyllfa ar ôl canfod fod y deiliad yn unigolyn hŷn; ac
- Sy'n ymddangos i fod yn rhannol, neu'n gyfan gwbl, wedi ei gymell gan elyniaeth wedi ei seilio ar oed, neu oed tybiedig. Er enghraifft, ymosodiad, aflonyddu neu ymddygiad gwrth gymdeithasol yn cynnwys gwneud sylwadau sarhaus sy'n gysylltiedig ag oed y dioddefwr.

Mae'r nifer o achosion sy'n dod drwy'r system a'r raddfa canlyniadau erlyniad llwyddiannus yn ystod y flwyddyn gyntaf hon y bu'r polisi yn ei le, yn galonogol. Fodd bynnag, mae bob amser le i wella.

Mae'r CPS yn cynllunio adolygiad thema o'r cynnydd mewn gweithredu'r polisi a chyfarwyddyd troseddau yn erbyn pobl hŷn ar draws y wlad, a fydd yn cychwyn yn hwyrach yn 2009 - 10. Mae adolygiadau thema'n caniatáu dadansoddiad pellach o ffactorau sy'n effeithio ar berfformiad maes cyflenwad arbennig ac yn helpu Ardaloedd i ddynodi'r gweithredu sydd ei angen i wella canlyniadau. Bydd yr adolygiad yn darparu'r ffocws angenrheidiol i ymateb i bryderon am berfformiad y CPS ac yn anfon neges glir bod y CPS wedi ymrwymo i wella'r gwasanaeth i bobl hŷn.

Yn hanesyddol, roedd troseddau yn erbyn pobl hŷn (CAOP) yn cael eu cynnwys yng ngwaith y TEM gan fod y mwyafrif o bobl hŷn yn fenywod ac felly bod menywod yn fwy tebygol o fod yn ddioddefwyr y troseddau hyn. Mae'r ymchwil hefyd yn dangos efallai bod gorgyffwrdd gyda thrais domestig - camdriniaeth gan bartner dros ddegawdau neu gamdriniaeth gan ofalwr teuluol - o fewn patrwm o bŵer a rheolaeth. Fodd bynnag, mae'r CPS yn cydnabod bod CAOP yn wahanol i droseddau TEM eraill yn yr ystyr mai'r prif ffactor mewn CAOP yw oed yn hytrach na rhywedd. Hefyd, dengys data 2008 - 09 bod mwy o'r cyflawnwyr yn fenywod (24%) nag mewn troseddau TEM yn gyffredinol, ble y ceir patrwm cyffredinol o drais gan ddynion yn erbyn menywod.

Erlynwyd 1004 o ddiffynnyddion yn 2008-09 fel troseddau yn erbyn pobl hŷn, gyda 78% o ganlyniadau'n llwyddiannus a 21% yn aflwyddiannus. Roedd 76% o'r diffynnyddion yn ddynion.

Tabl 1 - Troseddau yn erbyn yr unigolyn hŷn yn 2008 - 2009

	Gwryw		Benyw		Anhysbys	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Euogfarnau	601	79.1%	188	77.4%	1	100.0%
Aflwyddiannus	159	20.9%	55	22.6%	0	0.0%
CYFANSWM	760		243		1	

Atodiad 1**Cyfanswm Erlyniadau Trais yn Erbyn Menywod y CPS**

	2008-09				
	Euogfarnau		Aflwyddiannus		Cyfanswm
	Nifer	%	Nifer	%	
42 Rhanbarth	56,438	71.9%	22,085	28.1%	78,523
Avon a Gwlad yr Haf	1,359	73.6%	488	26.4%	1,847
Swydd Bedford	467	68.3%	217	31.7%	684
Swydd Gaergrawnt	673	73.0%	249	27.0%	922
Sir Gaer	1,247	73.4%	451	26.6%	1,698
Cleveland	933	69.9%	402	30.1%	1,335
Cumbria	595	75.6%	192	24.4%	787
Swydd Derby	1,265	71.1%	513	28.9%	1,778
Dyfnaint a Chernyw	1,202	75.1%	398	24.9%	1,600
Dorset	683	72.0%	265	28.0%	948
Durham	897	79.7%	229	20.3%	1,126
Dyfed Powys	395	79.5%	102	20.5%	497
Essex	1,110	68.9%	502	31.1%	1,612
Swydd Gaerloyw	712	75.0%	237	25.0%	949
Manceinion Fwyaf	3,515	74.3%	1,219	25.7%	4,734
Gwent	663	68.8%	301	31.2%	964
Hampshire & IOW	2,143	68.4%	988	31.6%	3,131
Swydd Hertford	706	68.1%	330	31.9%	1,036
Glannau Humber	1,297	81.8%	288	18.2%	1,585
Caint	1,417	75.5%	459	24.5%	1,876
Swydd Gaerhirfryn	3,745	77.8%	1,070	22.2%	4,815
Swydd Gaerlŷr	1,052	71.1%	428	28.9%	1,480
Swydd Lincoln	530	75.5%	172	24.5%	702
Glannau Mersi	1,635	68.1%	765	31.9%	2,400
Llundain a Dinas Llundain	5,791	62.0%	3,545	38.0%	9,336
Norfolk	979	80.2%	242	19.8%	1,221
Swydd Northampton	412	73.2%	151	26.8%	563
Northumbria	1,901	70.1%	812	29.9%	2,713
Gogledd Cymru	964	80.7%	230	19.3%	1,194
Gogledd Swydd Efrog	577	75.4%	188	24.6%	765
Swydd Nottingham	1,001	70.0%	429	30.0%	1,430
De Cymru	1,527	68.4%	707	31.6%	2,234
De Swydd Efrog	1,595	75.1%	530	24.9%	2,125
Swydd Stafford	1,220	72.8%	455	27.2%	1,675
Suffolk	814	83.3%	163	16.7%	977
Surrey	445	73.0%	165	27.0%	610
Sussex	1,357	72.1%	524	27.9%	1,881
Dyffryn Tafwys	1,726	69.5%	758	30.5%	2,484
Swydd Warwig	396	85.5%	67	14.5%	463
Gorllewin Mersia	989	81.1%	230	18.9%	1,219
Gorllewin Canolbarth Lloegr	3,320	69.4%	1,465	30.6%	4,785
Gorllewin Swydd Efrog	2,475	72.2%	953	27.8%	3,428
Wiltshire	708	77.5%	206	22.5%	914

Cyfanswm Erlyniadau Trais Domestig y CPS

	2008-09				
	Euogfarnau		Aflwyddiannus		Cyfanswm
	Nifer	%	Nifer	%	
42 Rhanbarth	48,465	72.2%	18,629	27.8%	67,094
Avon a Gwlad yr Haf	1,186	75.0%	396	25.0%	1,582
Swydd Bedford	412	68.4%	190	31.6%	602
Swydd Gaergrawnt	547	73.5%	197	26.5%	744
Sir Gaer	1,107	73.4%	401	26.6%	1,508
Cleveland	789	68.7%	360	31.3%	1,149
Cumbria	537	77.7%	154	22.3%	691
Swydd Derby	1,132	71.6%	449	28.4%	1,581
Dyfnaint a Chernyw	1,022	74.7%	347	25.3%	1,369
Dorset	580	70.9%	238	29.1%	818
Durham	785	80.8%	187	19.2%	972
Dyfed Powys	339	80.3%	83	19.7%	422
Essex	953	69.1%	427	30.9%	1,380
Swydd Gaerloyw	650	76.7%	198	23.3%	848
Manceinion Fwyaf	3,022	75.1%	1,001	24.9%	4,023
Gwent	569	69.0%	256	31.0%	825
Hampshire & IOW	1,839	68.9%	829	31.1%	2,668
Swydd Hertford	618	69.1%	277	30.9%	895
Glannau Humber	1,143	82.6%	240	17.4%	1,383
Caint	1,152	75.5%	373	24.5%	1,525
Swydd Gaerhirfryn	3,436	78.3%	954	21.7%	4,390
Swydd Gaerlŷr	929	71.8%	365	28.2%	1,294
Swydd Lincoln	459	76.2%	143	23.8%	602
Glannau Mersi	1,458	67.5%	702	32.5%	2,160
Llundain a Dinas Llundain	4,452	61.9%	2,741	38.1%	7,193
Norfolk	839	80.0%	210	20.0%	1,049
Swydd Northampton	317	72.9%	118	27.1%	435
Northumbria	1,695	70.2%	712	29.8%	2,416
Gogledd Cymru	854	80.4%	208	19.6%	1,062
Gogledd Swydd Efrog	477	76.7%	145	23.3%	622
Swydd Nottingham	863	69.7%	376	30.3%	1,239
De Cymru	1,354	69.0%	607	31.0%	1,961
De Swydd Efrog	1,388	74.8%	468	25.2%	1,856
Swydd Stafford	1,042	72.8%	389	27.2%	1,431
Suffolk	732	84.2%	137	15.8%	869
Surrey	339	74.2%	118	25.8%	457
Sussex	1,160	72.7%	436	27.3%	1,596
Dyffryn Tafwys	1,487	69.4%	657	30.6%	2,144
Swydd Warwig	345	87.1%	51	12.9%	396
Gorllewin Mersia	840	81.6%	189	18.4%	1,029
Gorllewin Canolbarth Lloegr	2,799	68.8%	1,269	31.2%	4,068
Gorllewin Swydd Efrog	2,183	72.2%	842	27.8%	3,025
Wiltshire	635	77.9%	180	22.1%	815

Cyfanswm Erlyniadau Trais Rhywiol y CPS

	2008-09				
	Euogfarnau		Aflwyddiannus		Cyfanswm
	Nifer	%	Nifer	%	
42 Rhanbarth	2,018	57.7%	1,477	42.3%	3,495
Avon a Gwlad yr Haf	37	47.4%	41	52.6%	78
Swydd Bedford	9	39.1%	14	60.9%	23
Swydd Gaergrawnt	29	58.0%	21	42.0%	50
Sir Gaer	34	69.4%	15	30.6%	49
Cleveland	26	63.4%	15	36.6%	41
Cumbria	9	37.5%	15	62.5%	24
Swydd Derby	38	53.5%	33	46.5%	71
Dyfnaint a Chernyw	35	71.4%	14	28.6%	49
Dorset	22	68.8%	10	31.3%	32
Durham	53	69.7%	23	30.3%	76
Dyfed Powys	6	46.2%	7	53.8%	13
Essex	50	65.8%	26	34.2%	76
Swydd Gaerloyw	25	56.8%	19	43.2%	44
Manceinion Fwyaf	179	60.9%	115	39.1%	294
Gwent	27	58.7%	19	41.3%	46
Hampshire & IOW	72	55.0%	59	45.0%	131
Swydd Hertford	25	54.3%	21	45.7%	46
Glannau Humber	39	70.9%	16	29.1%	55
Caint	68	65.4%	36	34.6%	104
Swydd Gaerhifryn	77	64.7%	42	35.3%	119
Swydd Gaerlŷr	21	43.8%	27	56.3%	48
Swydd Lincoln	13	61.9%	8	38.1%	21
Glannau Mersi	37	62.7%	22	37.3%	59
Llundain a Dinas Llundain	340	47.0%	384	53.0%	724
Norfolk	29	67.4%	14	32.6%	43
Swydd Northampton	16	53.3%	14	46.7%	30
Northumbria	42	58.3%	30	41.7%	72
Gogledd Cymru	23	67.6%	11	32.4%	34
Gogledd Swydd Efrog	19	55.9%	15	44.1%	34
Swydd Nottingham	29	69.0%	13	31.0%	42
De Cymru	52	52.5%	47	47.5%	99
De Swydd Efrog	55	72.4%	21	27.6%	76
Swydd Stafford	50	64.1%	28	35.9%	78
Suffolk	12	48.0%	13	52.0%	25
Surrey	19	59.4%	13	40.6%	32
Sussex	44	58.7%	31	41.3%	75
Dyffryn Tafwys	46	52.3%	42	47.7%	88
Swydd Warwick	16	66.7%	8	33.3%	24
Gorllewin Mersia	34	69.4%	15	30.6%	49
Gorllewin Canolbarth Lloegr	127	57.7%	93	42.3%	220
Gorllewin Swydd Efrog	106	65.4%	56	34.6%	162
Wiltshire	28	71.8%	11	28.2%	39

Cyfanswm Erlyniadau Troseddau Rhywiol ac eithrio Treisio y CPS

	2008-09				
	Euogfarnau		Aflwyddiannus		Cyfanswm
	Nifer	%	Nifer	%	
42 Rhanbarth	5,955	75.1%	1,979	24.9%	7,934
Avon a Gwlad yr Haf	136	72.7%	51	27.3%	187
Swydd Bedford	46	78.0%	13	22.0%	59
Swydd Gaergrawnt	97	75.8%	31	24.2%	128
Sir Gaer	106	75.2%	35	24.8%	141
Cleveland	118	81.4%	27	18.6%	145
Cumbria	49	68.1%	23	31.9%	72
Swydd Derby	95	75.4%	31	24.6%	126
Dyfnaint a Chernyw	145	79.7%	37	20.3%	182
Dorset	81	82.7%	17	17.3%	98
Durham	59	75.6%	19	24.4%	78
Dyfed Powys	50	80.6%	12	19.4%	62
Essex	107	68.6%	49	31.4%	156
Swydd Gaerloyw	37	64.9%	20	35.1%	57
Manceinion Fwyaf	314	75.3%	103	24.7%	417
Gwent	67	72.0%	26	28.0%	93
Hampshire & IOW	232	69.9%	100	30.1%	332
Swydd Hertford	63	66.3%	32	33.7%	95
Glannau Humber	115	78.2%	32	21.8%	147
Caint	197	79.8%	50	20.2%	247
Swydd Gaerhirfryn	232	75.8%	74	24.2%	306
Swydd Gaerlŷr	102	73.9%	36	26.1%	138
Swydd Lincoln	58	73.4%	21	26.6%	79
Glannau Mersi	140	77.3%	41	22.7%	181
Llundain a Dinas Llundain	999	70.4%	420	29.6%	1,419
Norfolk	111	86.0%	18	19.4%	129
Swydd Northampton	79	80.6%	19	19.4%	98
Northumbria	164	72.9%	61	27.1%	225
Gogledd Cymru	87	88.8%	11	11.2%	98
Gogledd Swydd Efrog	81	74.3%	28	25.7%	109
Swydd Nottingham	109	73.2%	40	26.8%	149
De Cymru	121	69.5%	53	30.5%	174
De Swydd Efrog	152	78.8%	41	21.2%	193
Swydd Stafford	128	77.1%	38	22.9%	166
Suffolk	70	84.3%	13	15.7%	83
Surrey	87	71.9%	34	28.1%	121
Sussex	153	72.9%	57	27.1%	210
Dyffryn Tafwys	193	76.6%	59	23.4%	252
Swydd Warwig	35	81.4%	8	18.6%	43
Gorllewin Mersia	115	81.6%	26	18.4%	141
Gorllewin Canolbarth Lloegr	394	79.3%	103	20.7%	497
Gorllewin Swydd Efrog	186	77.2%	55	22.8%	241
Wiltshire	45	75.0%	15	25.0%	60

Geirfa

Trais yn Erbyn Mentwod

Trais Domestig:

unrhyw ddigwyddiad neu ymddygiad bygythiol, trais neu gamdriniaeth (seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol) rhwng y rheiny¹³ sydd neu a fu'n bartneriaid agos neu'n aelodau teulu, waeth beth fo'u rhywedd neu rywioldeb. Mae aelodau teulu'n cynnwys mam, tad, mab, merch, chwaer, a thaid a nain, p'un a ydynt yn berthynas uniongyrchol, yn deulu yng nghyfraith neu'n lysdeulu.

Trais Rhywiol:

unrhyw ddiffynnydd sy'n cael ei gyhuddo o un neu fwy o'r troseddau canlynol -

- S1 Deddf Troseddau Rhywiol 1956
- S5 Deddf Troseddau Rhywiol 1956
 - Ymgais i gyflawni un o'r troseddau uchod o dan y Ddeddf Ymgeisiau i Droseddu 1981
- S1 Deddf Troseddau Rhywiol 2003
- S5 Deddf Troseddau Rhywiol 2003
- S30(3) Troseddau Rhywiol act 2003
 - Ymgais i gyflawni un o'r troseddau uchod o dan y Ddeddf Ymgeisiau i Droseddu 1981

Ysgogi neu gynllwynio i gyflawni unrhyw un o'r troseddau uchod

Troseddau Rhywiol
heblaw trais rhywiol:

Unrhyw ddiffynnydd y mae categori ei brif drosedd, ar adeg ei chwblhau, yn drosedd rywiol ac eithrio treisio.

Baneri monitro:

dynodir achosion o fath sensitif trwy ddefnyddio nifer o faneri monitro, a osodir ar achosion perthnasol ar y cam cyn cyhuddo. Mae'r baneri'n caniatáu i reolwyr fonitro'r achosion yn ystod oes yr erlyniad, a galluogi adrodd ar ganlyniadau yn dilyn diwedd yr achos.

Canlyniadau Achosion

Penderfyniadau cyn cyhuddo:

Ym mhob achos heblaw'r rhai lleiaf, a phan ddisgwylir ple euog, Erlynyddion y Goron sy'n gyfrifol am benderfynu p'un a ddylid cyhuddo unigolyn gyda throsedd ac, os felly, pa drosedd ddylai honno fod, yn unol â chanllawiau'r Cyfarwyddwr.

Wedi'i gyhuddo:

achosion lle penderfynodd y CPS y dylid cyhuddo.

Cais am dystiolaeth bellach:

ble gwneir cais am ragor o wybodaeth neu weithredu, neu lle'r ystyrir hynny'n angenrheidiol.

Dim erlyniad:

achosion lle bydd y CPS yn penderfynu na ddylid erlyn, am resymau dystiolaethol neu am resymau budd y cyhoedd.

¹³ Yn y CPS bydd achosion yn cael eu monitro ar gyfer oedolion a'r rhai dan 18

Pob penderfyniad arall:	ble rhoddir rhybudd, cerydd neu rybudd terfynol; ble cafodd y drosedd ei hystyried mewn perthynas â chyhuddiadau eraill; neu lle methodd y diffynnydd ateb i fechnïaeth a bod gwarant wedi'i chyflwyno.
Erlyniadau:	yr holl ddiffynyddion a gyhuddwyd neu a dderbyniodd wŷs ac y cwblhawyd yr achos yn llys yr ynadon neu Lys y Goron yn ystod y cyfnod, gan gynnwys y rhai a aeth ymlaen i dreial neu bledio'n euog, y rhai a derfynwyd a'r rhai na ellid bwrw ymlaen â nhw.
<u>Canlyniadau Aflwyddiannus:</u>	yr holl erlyniadau a gwblhawyd ble na chafodd y diffynnydd ei euogfarnu, sy'n cynnwys y canlynol:
Cwblhau Gwaith Gweinyddol:	ble na all erlyniad fwrw ymlaen oherwydd bod diffynnydd wedi methu ymddangos mewn llys ac y cyflwynwyd Gwarant gan y Fainc i'w arestio ef neu hi; neu fod y diffynnydd wedi marw, neu nad yw'n ffit i bledio: neu ble bydd achosion yn cael eu gohirio yn amhenodol. Os bydd Gwarant gan y Fainc yn cael ei chyflawni mae'n bosib yr ailagorir yr achos.
Achosion traddodi a ryddhawyd:	achosion traddodi ble bydd y diffynnydd yn cael ei ryddhau. Yn dilyn rhyddhau, gellir ailgychwyn achos.
Terfynu a thynnu'n ôl:	O ystyried y dystiolaeth a budd y cyhoedd, gall y CPS benderfynu terfynu achosion ar unrhyw adeg cyn dechrau'r treial. Yma fe gynhwysir achosion a derfynir yn ffurfiol cyn y gwrandawriad, y rhai ble na chynigiwyd unrhyw dystiolaeth, a'r rhai a dynnir yn ôl yn y llys. Yma hefyd cynhwysir achosion lle cafodd y diffynnydd ei rwymo i gadw'r heddwch.
Gwrthod ar ôl treial llawn:	achosion ble bydd y diffynnydd yn pledio'n ddieuog ac y bydd yr ynadon yn gwrthod yr achos ar ôl gwrandawrio achos yr amddiffyniad.
Dim achos i'w ateb:	achosion ble bydd y diffynnydd yn pledio'n ddieuog ac y gwrandawir dystiolaeth yr erlyniad, ond y gwrthodir yr achos gan yr ynadon heb wrando achos yr amddiffyniad.
Barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu:	achosion ble bydd y canlynol yn digwydd: ar ddiwedd achos yr erlyniad yn erbyn y diffynnydd, gwneir argymhelliad llwyddiannus o 'ddim achos' neu 'annïogel' ar ran y diffynnydd, ac y bydd y barnwr yn cyfarwyddo rhyddfarn yn hytrach na chaniatáu i'r achos gael ei benderfynu gan y rheithgor.
Rhyddfarnu gan reithgor:	pan fydd y diffynnydd yn pledio'n ddieuog ac, yn dilyn treial, yn cael ei ryddfarnu gan y rheithgor.
<u>Euogfarnau:</u>	achos lle ceir y diffynnydd yn euog yn dilyn erlyniad, sy'n cynnwys:
Ple euog:	le bydd y diffynnydd yn pledio'n euog.
Euogfarn yn dilyn achos:	achosion ble bydd y diffynnydd yn pledio'n ddieuog, ond yn cael ei ddyfarnu'n euog ar ôl gwrandawrio'r dystiolaeth.
Prawf yn absenoldeb:	Troseddau llai yw'r rhain a glywir gan y llys yn absenoldeb y diffynnydd.

Categoriâu Rhesymau dros Ganlyniadau Aflwyddiannus

Tystiolaethol:	ble bo'r erlynydd yn penderfynu nad oes digon o dystiolaeth i roi gobaith realistig o euogfarn.
Budd y cyhoedd:	ble'r ystyrir bod digon o dystiolaeth, ond bod yr erlynydd yn penderfynu bod ffactorau budd y cyhoedd yn erbyn erlyniad.
Methu parhau:	lle bo'r dystiolaeth a budd y cyhoedd yn cefnogi erlyniad, ond fod amgylchiadau yn ei gwneud hi'n amhosib i'r achos fynd yn ei flaen.
Rhesymau eraill:	ble bydd y diffynnydd yn cael ei rwymo, rhyddfarnu neu wrthod ar ôl achos, neu ble nad oes unrhyw ddewis arall yn briodol.
Cwblhau gwaith gweinyddol:	Bydd y CPS yn cofnodi cwblhau gwaith gweinyddol pan na all erlyniad fynd yn ei flaen oherwydd bod diffynnydd wedi methu ymddangos yn y llys a Gwarant gan y Fainc wedi'i chyflwyno i'w arestio ef neu hi; neu fod y diffynnydd wedi marw; neu nad yw'n ffit i bledio; neu lle bo achosion yn cael eu gohirio yn amhenodol. Os bydd Gwarant gan y Fainc yn cael ei chyflawni mae'n bosib yr ail-agorir yr achos.

Rhesymau dros Ganlyniadau Aflwyddiannus

Dioddefwr yn tynnu'n ôl:	ble bo tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi achos yr erlyniad, y dioddefwr yn gwrthod cael ei alw i dystio, neu'n tynnu'n ôl, neu'n tynnu'r gŵyn yn ôl.
Dioddefwr ddim yn mynychu:	gelwir y dioddefwr yn dyst mewn achos, ond bydd yn methu mynychu'r llys.
Tystiolaeth y dioddefwr ddim yn cefnogi'r achos:	nid yw tystiolaeth y dioddefwr am y trosedd yn cefnogi erlyn y diffynnydd, gan arwain at ganlyniad aflwyddiannus, ond, serch hynny, nad yw'r dioddefwr wedi tynnu'n ôl.
Rhybudd:	y diffynnydd yn cael ei gyhuddo o gyflawni trosedd, ond y penderfynir wedyn y byddai rhybudd yn fwy priodol nag erlyn.
Rhwymo:	y diffynnydd yn cael ei gyhuddo o gyflawni trosedd, ond yn cytuno i gael ei rwymo.
Elfen gyfreithiol hanfodol:	ni all yr erlyniad barhau oherwydd bod elfen gyfreithiol hanfodol ar goll o achos yr erlyniad.
Tyst neu dystion yn annibynadwy:	pan fo tystiolaeth tyst neu dystion yr erlyniad, heblaw'r diffynnydd, yn cael ei hystyried yn annibynadwy, gan arwain at ganlyniad aflwyddiannus.
Tystiolaeth anghyson:	Bydd anghysondeb mewn tystiolaeth erlyn yn arwain at ganlyniad aflwyddiannus.
Effaith ar iechyd corfforol neu feddyliol dioddefwr/tyst:	Nid yw'r achos yn parhau oherwydd fod y dioddefwr mewn iechyd gwael, p'un a yw hynny'n gorfforol neu feddyliol.

Rhyddfarnau ar ôl yr achos:

mae'r diffynnydd yn ei gael yn ddieuog gan ynadon neu reithgor ar ôl gwrandawriad sy'n cael ei herio pan fo'r amddiffyniad yn cael ei alw i gyflwyno'i achos.

Categori'r prif drosedd:

bydd troseddau a gyhuddir yn cael eu dyrannu i un o ddeuddeg categori trosedd er mwyn dangos y math o drosedd a difrifoldeb y cyhuddiadau a ddwynir yn erbyn y diffynnydd.

Gallwch lawrlwytho rhagor o gopiau o'r adroddiad hwn
mewn PDF Adobe Acrobat ar wefan y CPS
<http://www.cps.gov.uk>

Argraffwyd gan Blackburns of Bolton